# Rhaglen Gyflawn

**Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR BLYNYDDOL**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 3YDD MAI, 2018**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 25/04/18)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

www.gwynedd.llyw.cymru


**DYDD MERCHER, 25 EBRILL 2018**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 3 MAI 2018**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf, **3YDD MAI, 2018 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Llafur Rhyddfrydol - Ystafell Llyfni
Annibynnol Unedig Gwynedd – Ystafell Daron

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2018/19.

**2. IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2018/19.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. COFNODION** 7 - 23

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Mawrth, 2018 fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**7. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**8. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**9. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

**10. PAPUR GWYRDD LLYWODRAETH CYMRU - "CRYFHAU LLYWODRAETH LEOL: CYFLAWNI DROS EIN POBL"**

Cyflwyno adroddiad yr Arweinydd (i ddilyn).

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** 24 - 33

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**12. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

[Yn unol a gofynion adran 14 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y Cyngor Llawn sydd i benodi cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac ni all benodi aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.]

**13. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG** 34 - 38

Cyflwyno adroddiad yr Arweinydd (ynghlwm).

**14. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 39 - 42

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**15. DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD** 43 - 51

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**16. CYNLLUN LLESIANT GWYNEDD A MON**

Cyflwyno adroddiad yr Arweinydd (i ddilyn).

**17. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD JUDITH HUMPHREYS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Judith Humphreys yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Mae'r Cyngor hwn yn nodi:**

- **Bod dinasyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd yn rhoi'r hawl i unigolion deithio, gweithio, neu astudio unrhyw le oddi fewn i'r Undeb Ewropeaidd.**
- **Bod yr ystod o hawliau sydd gan unigolion yr UE yn rhan greiddiol o'u hunaniaeth Ewropeaidd.**
- **Bod miloedd o bobl ar draws Cymru wedi mynegi pryder**

**ynglŷn â'r ffaith bod eu dinasyddiaeth Ewropeaidd yn cael eu cymeryd oddi arnynt o ganlyniad i Refferendwm yr UE 2016 ynghyd â phenderfyniad llywodraeth y DU i adael yr UE.**

- **Bod mwyafrif sylweddol o boblogaeth Gwynedd wedi pleidleisio i Aros yn yr Undeb Ewropeaidd.**
- **astudiaeth a ryddhawyd gan Jill Evans ASE ac sydd wedi ei chynnal gan Yr Athro. Volker Roeben o Brifysgol Abertawe sy'n dwyn y teitl "Dichonolrwydd Dinasyddiaeth Gysylltiol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Dinasyddion y DU ar ôl Brexit."/ "The Feasibility of Associate EU Citizenship for UK Citizens Post-Brexit".**

**Mae'r Cyngor hwn yn nodi prif ganfyddiadau'r adroddiad hwn hefyd:**

- **Bod parhau â Dinasyddiaeth yn yr Undeb Ewropeaidd yn bosibl i ddinasyddion Cymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr o dan gyfraith Ewropeaidd a chyfraith Ryngwladol gyfredol.**
- **Y gellid cyflawni hyn drwy ddeddfwriaeth UE a'r cytundeb ymadael rhwng y DU a'r UE.**
- **Na fydd angen adolygu unrhyw gytundebau Ewropeiadd er mwyn cyflawni hyn.**
- **Bod cyfraith ddinasyddiaeth y DU yn hyblyg ac yn derbyn yr egwyddor na ddylai unrhyw un golli ei ddinasyddiaeth yn erbyn ei h/ewyllys.**

**Mae'r Cyngor yn croesawu:**

**Bod cynnig Plaid Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod hawliau dinasyddion y DU i ddinasyddiaeth yr UE yn cael ei gadw wedi ei basio gan Dŷ'r Cyffredin.**

**Mae'r Cyngor yn galw ar:**

- **Lywodraeth y DU i roi cynnig o Ddinasyddiaeth Gysylltiol yr Undeb Ewropeaidd gerbron yn ystod trafodaethau Brexit.**
- **Lywodraeth Cymru i fynnu drwy'r Cyd-Bwyllgor Gweinidogion (Trafodaethau Ewropeaidd) bod**

**Llywodraeth y DU yn cynnwys Dinasyddiaeth Gysylltiol yr UE fel rhan o'i safiad negydu."**

## (B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ALWYN GRUFFYDD

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Bod y Cyngor hwn yn gofyn i Gabinet y Cyngor ail-ystyried dyfodol Gwasanaeth Ieuenctid y Sir gan ragdybio o blaid cynnal clybiau ieuenctid a pharhau gyda'r cymorth ariannol traddodiadol i fudiadau gwirfoddol megis yr Urdd a Mudiad y Ffermwyr Ifanc."**

## (C) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD CATRIN WAGER

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Catrin Wager yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod fod eitemau hylendid misglwyf yr un mor hanfodol â phapur toiled ar gyfer hylendid personol disgyblion benywaidd, ac yn croesawu'r cyllid refeniw a gynigir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu nwyddau hylendid am ddim mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn nodi nad yw'r £29,497 o gyllid a gynigir ar gyfer 2017/18 yn debygol o gwrdd â chost y ddarpariaeth yng Ngwynedd. Mae'r Cyngor felly yn gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg ymchwilio i'r costau sydd ynghlwm â hyn, a'r ffordd orau o ddarparu eitemau hylendid am ddim i ferched oedran ysgol, gan sicrhau bod modd i holl ferched ifanc Gwynedd gael gafael ar eitemau hylendid hanfodol heb embaras, waeth beth fo'u hincwm teuluol."**

# Y CYNGOR DYDD IAU, 8 MAWRTH 2018

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Annwen Daniels (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Annwen Hughes (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, R.Medwyn Hughes, Sian Wyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, W.Roy Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams a Gruffydd Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, Eric Merfyn Jones, Linda Ann Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, Peter Read ac Owain Williams.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2017 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Swyddog Monitro fuddiant personol yn eitem 9 'Adolygiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor 2018/19' ar ran y prif swyddogion oedd yn bresennol gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

'Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, gadawodd y Swyddog Monitro'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Simon Glyn ar golli ei dad.

Cydymdeimlwyd hefyd a theuluoedd dau aelod o staff, sef:-

- Iwan Huws o'r Adran Ymgynghoriaeth a fu farw drwy ddamwain yn ddiweddar.
- Daffni Eynon Williams o'r Adran Gwasanaeth Plant a fu farw yn eithaf sydyn tua phythefnos yn ôl.

Nodwyd bod y Cyngor hefyd yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

Llongyfarchwyd:-

- Y Cynghorydd Ioan Thomas ar ddod yn daid i ferch fach.
- Sue Owen, siop flodau Lili Wen Porthmadog ar ennill cystadleuaeth Welsh Weddings Award Cymru am y siop flodau orau yng Ngogledd Cymru.

Diolchwyd i'r aelodau am eu hyblygrwydd yn sgil gorfod newid trefniadau'r cyfarfod hwn o'r Cyngor ar fyr rybudd a diolchwyd i staff y Cyngor oedd wedi mynd y filltir ychwanegol i gefnogi cymunedau'r sir yn ystod y tywydd garw diweddar.

Diolchwyd i'r aelodau am gytuno i gael tynnu eu lluniau i ddathlu'r ffaith bod heddiw yn Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched. Hefyd, anogwyd pawb i edrych ar y cyfryngau cymdeithasol i weld lluniau o nifer o ferched enwog o Wynedd ac i ymuno yn y dathliadau drwy enwebu mwy.

Cyfeiriwyd at y fideo 'Dathlu ein Cymreictod' a ddangoswyd i'r aelodau cyn dechrau'r cyfarfod. Eglurwyd mai'r Adran Addysg oedd wedi comisiynu'r gwaith 'Cewri Cymru' i gefnogi'r Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn hyrwyddo'r ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig.

**5. CYFLWYNO DEISEB**

Cyflwynodd y Cynghorydd Cemlyn Williams ddeiseb i'r Cadeirydd ar ran bron i 300 o blant a phobl ifanc cylch Caernarfon yn galw ar y Cyngor i gadw Canolfan Ieuenctid Penrallt yn agored.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelod am y ddeiseb gan nodi y byddai'n ei throsglwyddo i sylw'r adran berthnasol.

**6. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Dim i'w nodi.

**7. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**8. CWESTIYNAU**

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

**(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Pa gamau mae Cyngor Gwynedd yn eu cymryd i orfodi datblygwyr sy'n berchen tir neu adeiladau yng Ngwynedd i edrych ar ôl eu safleoedd gan eu cadw yn daclus ac yn ddiogel?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Mae yna rywfaint o offer yn y bocs tŵls gan y Cyngor ar gyfer pethau fel hyn, ond yn amlwg, os ydym ni'n sôn am dir preifat, cyfrifoldeb y perchennog ydyw yn y bôn ond mae yna rywfaint o dŵls penodol. Yn Neddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 mae yna bwerau gwarchod y cyhoedd os ydi rhywbeth yn creu perygl i iechyd i fedru gwneud rhywbeth amdano fo, i orfodi. Hefyd mae yna bwerau o dan Adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae yna bwerau gorfodi os ydi rhywle yn flêr ofnadwy ond 'rwy'n tybio efallai mai'r hyn sydd y tu ôl i hyn yw'r ffaith bod yr aelod wedi bod yn poeni am flerwch ar safle'r Colisiwm ym Mhorthmadog, ac 'rwy'n meddwl, er bod hwnnw'n dir preifat, bod yna symudiad wedi bod yno a bod pethau wedi eu datrys bellach."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Beth mae'r Cyngor yn gallu wneud am adeiladau, e.e. adeilad yr Hen Felin neu adeilad Capel Seion yn fy ward i lle mae gan bobl leol bryder am ddiogelwch y cyhoedd am fod yr adeiladau yma yn denu plant a phobl ifanc i mewn iddynt a hefyd oes yna rywbeth rhagweithiol y gall y Cyngor ei wneud hefo safle, e.e. Tŷ Moelwyn ym Mhorthmadog i rwystro'r adeilad fynd i'r fath stad yn y lle cyntaf unwaith y bydd y staff Cyllid a Thollau wedi gadael yr adeilad?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"O ran diogelwch, mater yn benodol i'r tirfeddiannwr ydi gwneud yn siŵr bod y safle yn ddiogel. Gall y Cyngor ddefnyddio disgresiwn y pwerau yma i fynd ar ôl y perchennog, os oes angen gwneud hynny, ond 'rwy'n meddwl, fel gyda llawer o faterion fel hyn, mai mater ydyw o gysylltu hefo'r adran a hefo minnau i fynd ar ôl pethau fel hyn os ydyn nhw'n codi, ond yn sicr fe wnawn hynny os oes yna broblem."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Be ydy barn yr Aelod Cabinet ar ddyfodol cynghorau cymuned a thref ein Sir?"

**Ateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Nid wy'n siŵr faint o bwys ydi o beth ydy fy marn i, ac mae gen i farn ers blynyddoedd lawer fel aelod o Gyngor Tref Dolgellau. Mae'r ateb yna ac yn ddarllenadwy. Mi roedd sôn ar un pryd bod y Llywodraeth yng Nghaerdydd yn mynd i roi cyfrifoldeb am ad-drefnu cynghorau cymuned i'r cynghorau sir a phan wnes i glywed hynny, 'roeddwn yn gwaredu, oherwydd fyddwn i ddim yn dymuno cael y cyfrifoldeb yna ar y Cyngor, ond hwyrach wedyn bod yna ddadl dros wneud hynny."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Ydi o'n amser i ni fel Cyngor Gwynedd ofyn am newid radical yn y ffordd mae cynghorau cymuned a thref yn gweithredu yn ein cymunedau yng Ngwynedd a Chymru?"

**Ateb gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

“Rydw i’n hoff o newidiadau radical, ac rydw i’n cytuno â’r aelod, os oes ad-drefnu llywodraeth leol i fod, mae yna le i ni gychwyn hefo cynghorau tref a chymuned ac mae yna ymdrechion wedi digwydd yn wirfoddol, ond enghreifftiau prin ydyn nhw, ar draws y sir ac ar draws Cymru. Mae yna lefydd yng Nghymru lle nad oes cyngor cymuned o gwbl ac mae na gwestiwn ynglŷn â’u gwerth. Pan mae’r agenda rhanbartholi yn mynd yn ei flaen fel y mae, ac nid ydym yn siŵr i ba gyfeiriad (‘rydym ni’n disgwyl clywed rhywbeth gan y Gweinidog newydd) mae yna bryder bod yr atebolrwydd democrataidd yna yn mynd yn bellach a phellach o’r etholwyr. Gallech ddadlau bod y Cyngor yma yn rhy bell oddi wrth ei etholwyr ond credaf bod rhaid i ni gael cynghorau o faint priodol lle gallant gyflogi a gweithredu. Pan ‘rydych chi’n rhoi cyfrifoldeb i gyngor, mae’n mynd yn fwy na siop siarad wedyn, mae’n mynd yn fwy gweithredol, ond mae cael yr atebolrwydd yna yn bwysig. ‘Rwyf wedi cyfeirio at ein safbwynt ni fel cyngor sir. Credaf fod gennym ni le i weithio ac i ddatblygu syniadau ar yr ardaloedd llesiant sydd gennym lle dylem ni fod yn defnyddio rheini fel fforwm i glywed barn leol a rhannu gwybodaeth yn lleol ond nid wyf yn siŵr – efallai ein bod ni’n cymysgu dau beth yma.”

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Mike Stevens**

“Pam na chaniateir i aelodau gael rhifau ffôn uniongyrchol rhai swyddogion a’u bod felly’n gorfod cysylltu drwy’r ganolfan alwadau?”

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands**

“Byddwch i gyd yn ymwybodol bod y Cyngor wedi datblygu’r Porth Aelodau fel modd i rannu gwybodaeth efo cynghorwyr. Bu grŵp o gynghorwyr yn gweithio efo swyddogion er mwyn adnabod y wybodaeth bwysicaf i’w chynnwys ar y porth, ac un o’r gofynion a gafodd ei adnabod yr adeg hynny gan yr aelodau oedd yr angen am restr gyfredol o swyddogion fesul maes cyfrifoldeb, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn uniongyrchol i allu cysylltu efo nhw. Mae rhestr o swyddogion ar lefel rheolwyr wedi ei adnabod a’i chynnwys ar y Porth ac mae’r wybodaeth yn cael ei diweddaru’n gyson gan adrannau er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol, pan efallai bod swyddogion yn newid.

Gall aelodau ddewis cysylltu efo swyddogion drwy ddefnyddio’r ganolfan alwadau os ydynt yn dymuno gwneud hynny, neu trwy e-bost. Mae modd gweld rhifau ffôn swyddogion hefyd ar gyfeirlyfr yr e-bost ar y Surface. Fodd bynnag, ‘rwy’n annog yr aelodau i ddefnyddio’r rhestr swyddogion sydd ar y porth aelodau yn y lle cyntaf os oes mater sydd angen sylw ganddynt. Hefyd, ‘rwy’n ymwybodol bod is-grŵp o’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn edrych ar ddatblygu’r Porth ymhellach i’w wneud yn haws i aelodau ei ddefnyddio.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Mike Stevens**

“Oes modd i ni fel cynghorwyr gael rhifau ffôn pob swyddog yn rhywle ar y Porth fel y gallwn gysylltu â hwy yn uniongyrchol?”

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands**

“Mae llawer o swyddogion yn gwneud gwaith maes a ddim ar gael yn eu swyddfeydd ar bob awr o’r dydd a dyna pam weithiau ‘rydym yn cysylltu ar lefel y rheolwyr. Ond ‘rwy’n derbyn eich pwynt. Fe edrychwn i mewn i’r mater i weld sut gallwn ddatblygu’r hyn sydd gennym ar y porth yn barod i’w wneud yn haws i aelodau gyrraedd mwy o staff.”

**9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL – POLISI TAL Y CYNGOR 2018/19**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2018/19.

Yn ystod y drafodaeth, ymatebwyd i gwestiynau gan aelodau mewn perthynas â chyrhaeddiad y Cyngor o ran yr ymrwymiad i dalu cyflog byw i'w staff a'r rhesymeg y tu cefn i'r addasiad i'r polisi costau teithio ar gyfer swyddogion. Hefyd, mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd na fyddai'r addasiadau i'r polisi costau teithio yn effeithio ar ofalwyr cartref.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Tâl drafft ar gyfer 2018/19 yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**

**10. CYLLIDEB 2018/19 A STRATEGAETH ARIANNOL 2018/19 – 2020/21**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid:-

- Adroddiad yn argymell cyllideb i'r Cyngor ei chymeradwyo ar gyfer 2018/19.
- Cynllun tymor canolig i ddygymod â'r bwlch ariannol 2018/19 – 2020/21.
- Penderfyniad drafft y Dreth Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor (ar sail cynnydd o 4.8%) ynghyd â thablau yn dangos lefel y Dreth Cyngor a'r cynnydd fesul cymuned.

Diolchodd i holl staff yr Adran Gyllid, o dan arweinyddiaeth y Pennaeth Cyllid, am eu gwaith trylwyr drwy gydol y flwyddyn yn paratoi ac yn arwain y Cyngor at sefydlu cyllideb hafal.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Pryder ynglŷn â'r tan-gyllido o ganlyniad i Fformiwla Barnett a'r angen i gynyddu'r pwysau sy'n cael ei roi ar Lywodraeth Cymru i gael gwell setliad ariannu i Wynedd. Nodwyd bod y sefyllfa bresennol yn anghynaladwy ac awgrymwyd y dylai'r Cyngor hwn anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn galw am adolygiad o'r system drethi yn ei chyfanrwydd. Awgrymwyd hefyd, yn ogystal â'r lobïo parhaus sy'n cael ei wneud gan yr Arweinydd, yr Aelodau Cabinet, y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid, y byddai'n fuddiol gyrru dirprwyaeth o gynghorwyr i lawr i Gaerdydd i gyfarfod y Gweinidog. Anogwyd yr holl aelodau i ddwyn pwysau ar eu Haelodau Cynulliad yn ogystal.
- Y ffaith mai cynnydd o 0.6% yn unig dderbyniwyd yng ngrant y Llywodraeth ar gyfer 2018/19, er i Lywodraeth Cymru dderbyn cynnydd grant o 2.6% gan Lywodraeth San Steffan, a'r angen i wneud yn glir i'r trethdalwyr na fyddai'r Cyngor yn gorfod cynyddu'r Dreth Gyngor petai wedi derbyn grant digonol gan Lywodraeth Cymru.
- Pryder ynglŷn â dull y Llywodraeth o gyllido addysg drwy roi gydag un llaw a thynnu gyda'r llall a'r diffyg cysondeb rhwng negeseuon y Gweinidog a'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.
- Yr angen i roi holl drigolion Gwynedd yn ganolog i bob un o wasanaethau'r Cyngor er gwaethaf yr hinsawdd anodd.
- Pryder bod pobl yn ei chael yn gynyddol anodd talu'r Dreth Gyngor a chyfeiriwyd yn benodol at y bobl hynny sydd fymryn uwchlaw'r trothwy hawlio Cymorth Treth y Cyngor.
- Pryder y bydd mwy a mwy o berchnogion tai gwyliau yn trosglwyddo i'r dreth fusnes er mwyn osgoi'r Premiwm Treth Cyngor ar eu tai.
- Pryder am effaith y Premiwm Treth Cyngor ar bobl sy'n ceisio gwerthu tai a etifeddwyd ganddynt yn sgil marwolaeth aelod o'r teulu.
- Bid refeniw i benodi dau arolygwr Treth Cyngor ychwanegol – cadarnhawyd na fyddai'r Pennaeth Cyllid yn derbyn unrhyw gyllid ychwanegol am gyfrifoldeb y dasg

newydd yma, ond y byddai swyddog trethiant fydd yn ymgymryd â'r dyletswyddau goruchwyliaeth ychwanegol yn derbyn cynnydd bychan iawn i adlewyrchu hynny.

- Yr angen i'r Cyngor edrych ar ffyrdd amgen o gynyddu incwm, e.e. drwy godi tâl am wasanaethau ar berchnogion carafanau a chynnig morgeisi i bobl leol sydd angen tai. Nodwyd hefyd bod gorbwyslais ar breifateiddio gwasanaethau pan fyddai'r Cyngor yn gallu gwneud y gwaith ei hun a chael elw ohono.
- Honiadau o wastraff gan y Cyngor. Atebodd y Prif Weithredwr mai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu oedd y lle i godi materion o'r fath, yn hytrach gwneud honiadau di-sail yn y Cyngor.
- Ffigwr o £190,000 i arolygwyr o dai fforddiadwy – cadarnhawyd nad oedd unrhyw ffioedd yn mynd i gwmnïau allanol.
- Priodoldeb cyfrannu £25,000 i ymateb i Gynllun Wylfa Newydd yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Nododd sawl aelod, er yn anhapus ynglŷn â'r sefyllfa, nad oeddent o'r farn bod gan y Cyngor ddewis ond derbyn y gyllideb yn y sefyllfa sydd ohoni.

**PENDERFYNWYD**

1. **Sefydlu cyllideb o £242,862,930 ar gyfer 2018/19, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £175,127,330 a £67,735,600 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 4.8%.**
2. **Sefydlu rhaglen gyfalaf o £8.389m yn 2018/19 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.4 o'r adroddiad.**
3. **Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Gyllid, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 13 Tachwedd 2017, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2018/19 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf"):-**

**(a) 52,083.07 yw'r swm a gyfrifwyd fel Sylfaen drethiannol Gwynedd yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn.**

**(b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen drethiannol Cymuned –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberdaron** | **558.08** | **Llanddeiniolen** | **1,846.18** |
| **Aberdyfi** | **1,004.77** | **Llandderfel** | **513.32** |
| **Abergwyngregyn** | **115.92** | **Llanegryn** | **158.47** |
| **Abermaw (Barmouth)** | **1,149.17** | **Llanelltyd** | **289.10** |
| **Arthog** | **633.10** | **Llanengan** | **2,159.63** |
| **Y Bala** | **774.81** | **Llanfair** | **321.03** |
| **Bangor** | **3,855.89** | **Llanfihangel y Pennant** | **217.76** |
| **Beddgelert** | **332.99** | **Llanfrothen** | **225.29** |
| **Betws Garmon** | **136.30** | **Llangelynnin** | **408.83** |
| **Bethesda** | **1,669.25** | **Llangywer** | **144.05** |
| **Bontnewydd** | **434.36** | **Llanllechid** | **344.45** |
| **Botwnnog** | **455.84** | **Llanllyfni** | **1,418.05** |
| **Brithdir a Llanfachreth** | **422.14** | **Llannor** | **916.27** |
| **Bryncrug** | **342.88** | **Llanrug** | **1,138.32** |
| **Buan** | **229.85** | **Llanuwchllyn** | **317.47** |
| **Caernarfon** | **3,522.60** | **Llanwnda** | **782.81** |
| **Clynnog Fawr** | **448.12** | **Llanycil** | **196.34** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Corris** | **306.43** | **Llanystumdwy** | **875.24** |
| **Criccieth** | **937.64** | **Maentwrog** | **284.74** |
| **Dolbenmaen** | **618.87** | **Mawddwy** | **344.88** |
| **Dolgellau** | **1,237.33** | **Nefyn** | **1,467.95** |
| **Dyffryn Ardudwy** | **798.44** | **Pennal** | **226.79** |
| **Y Felinheli** | **1,152.14** | **Penrhyndeudraeth** | **780.08** |
| **Ffestiniog** | **1,742.49** | **Pentir** | **1,138.01** |
| **Y Ganllwyd** | **89.93** | **Pistyll** | **253.87** |
| **Harlech** | **787.85** | **Porthmadog** | **2,054.96** |
| **Llanaelhaearn** | **450.97** | **Pwllheli** | **1,758.31** |
| **Llanbedr** | **321.91** | **Talsarnau** | **325.14** |
| **Llanbedrog** | **714.05** | **Trawsfynydd** | **506.72** |
| **Llanberis** | **772.34** | **Tudweiliog** | **469.37** |
| **Llandwrog** | **1,017.19** | **Tywyn** | **1,623.87** |
| **Llandygai** | **968.30** | **Waunfawr** | **573.82** |

**sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**4.** **Bod y symiau a ganlyn yn cael eu cyfrifo yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/19 yn unol agAdrannau 32 i 36 o'r Ddeddf:-**

| | |
|---|---|
| **(a) £360,509,480** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros).** |
| **(b) £115,832,220** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm).** |
| **(c) £244,677,260** | **Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net).** |
| **(ch) £174,734,334** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.** |
| **(d) £1,342.91** | **Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3(ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn (treth Cyngor Gwynedd a threth gyfartalog cynghorau cymuned).** |
| **(dd) £2,207,330** | **Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned).** |

**(e) £1,300.53** **Sef y swm yn 3(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3(dd) uchod â'r swm yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig).**

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,327.41 | Llanddeiniolen | 1,314.88 |
| Aberdyfi | 1,335.32 | Llandderfel | 1,318.06 |
| Abergwyngregyn | 1,326.41 | Llanegryn | 1,332.08 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,348.04 | Llanelltyd | 1,326.47 |
| Arthog | 1,319.48 | Llanengan | 1,323.68 |
| Y Bala | 1,331.51 | Llanfair | 1,341.02 |
| Bangor | 1,399.26 | Llanfihangel y Pennant | 1,349.92 |
| Beddgelert | 1,327.26 | Llanfrothen | 1,328.49 |
| Betws Garmon | 1,319.61 | Llangelynnin | 1,324.50 |
| Bethesda | 1,340.70 | Llangywer | 1,328.30 |
| Bontnewydd | 1,338.52 | Llanllechid | 1,322.30 |
| Botwnnog | 1,312.60 | Llanllyfni | 1,328.99 |
| Brithdir a Llanfachreth | 1,314.74 | Llannor | 1,318.71 |
| Bryncrug | 1,335.53 | Llanrug | 1,337.43 |
| Buan | 1,316.85 | Llanuwchllyn | 1,332.03 |
| Caernarfon | 1,356.88 | Llanwnda | 1,332.47 |
| Clynnog Fawr | 1,327.31 | Llanycil | 1,320.90 |
| Corris | 1,324.79 | Llanystumdwy | 1,317.67 |
| Criccieth | 1,338.92 | Maentwrog | 1,321.78 |
| Dolbenmaen | 1,319.92 | Mawddwy | 1,324.89 |
| Dolgellau | 1,344.17 | Nefyn | 1,341.78 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,337.78 | Pennal | 1,326.99 |
| Y Felinheli | 1,330.91 | Penrhyndeudraeth | 1,346.68 |
| Ffestiniog | 1,415.31 | Pentir | 1,344.47 |
| Y Ganllwyd | 1,333.89 | Pistyll | 1,334.01 |
| Harlech | 1,389.38 | Porthmadog | 1,328.42 |
| Llanaelhaearn | 1,355.97 | Pwllheli | 1,342.05 |
| Llanbedr | 1,344.62 | Talsarnau | 1,362.04 |
| Llanbedrog | 1,325.46 | Trawsfynydd | 1,336.05 |
| Llanberis | 1,331.60 | Tudweiliog | 1,313.31 |
| Llandwrog | 1,347.72 | Tywyn | 1,355.03 |
| Llandygai | 1,322.64 | Waunfawr | 1,321.44 |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3(e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(3) o'r**

**Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

5. **Nodi ar gyfer y flwyddyn 2018/19 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 172.08 | 200.76 | 229.44 | 258.12 | 315.48 | 372.84 | 430.20 | 516.24 | 602.28 |

6. **Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3(ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2018/19 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

**11. RHEOLAETH TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2018/19**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid adroddiad yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r strategaeth arfaethedig.

Gan gyfeirio at y ffaith bod y Cyngor hwn yn rhoi benthyciadau i awdurdodau lleol yn Lloegr, holwyd oedd yna berygl y gallai rhai o'r cynghorau hynny fynd yn fethdalwyr. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y cynghorau hynny yn cael eu credyd-raddio a bod y risg wedi ei wasgaru'n eang. Hefyd, 'roedd y benthyciadau yn rhai dros dro ac 'roedd bron yn amhosib' i gyngor fynd yn fethdalwr oherwydd y gallai godi mwy o dreth.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2018/19 (Atodiad A i'r adroddiad), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad B), y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (Atodiad C) a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.**

**12. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018/23**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2017/23.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu holl waith yn paratoi'r adroddiad. Ymddiheurwyd bod cynllun yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol wedi'i adael allan o'r Cynlluniau Adran trwy amryfusedd. 'Roedd yr aelodau wedi derbyn copi ar wahân a byddai'r ddogfen wedi'i hymgorffori yn y fersiwn terfynol o Gynllun y Cyngor fydd yn cael ei gyhoeddi. Byddai

angen cywiro rhai mân wallau golygyddol hefyd ynghyd ag ychwanegu paragraff yn datgan bod yr holl faterion yn y cynllun yn cyd-fynd â Strategaeth Ariannol y Cyngor, er y gallai fod yn amhosib' gwireddu'r holl flaenoriaethau oherwydd y cyd-destun ariannol.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd bod rhieni wedi derbyn neges destun gan bennaeth ysgol gynradd ar ôl 9yb ar ddau achlysur yn ddiweddar yn dweud bod yr ysgol yn cau oherwydd diffyg nwy ac yn gofyn iddynt ddychwelyd i nôl eu plant. Holwyd pam na allai'r rhieni gael gwybod am sefyllfaoedd fel hyn ynghynt gan fod yr ysgol yn gwybod am y broblem nwy cyn 9yb. Atebodd yr Arweinydd mai mater i'r Llywodraethwyr oedd hyn.
- Holwyd a oedd gan Dîm Derwen gynlluniau i ymestyn eu meini prawf i sicrhau bod pob plentyn ag anableddau yng Ngwynedd yn gallu manteisio ar wasanaeth arbenigol sy'n cael ei gynnig ganddynt. Nododd yr Arweinydd y byddai'n cyfeirio'r cwestiwn ymlaen i'r Tîm ac y byddai'r aelod yn derbyn yr ateb yn uniongyrchol.
- Holwyd faint o bwysau mae'r Cyngor yn rhoi i sicrhau cyflenwad digonol o dai ar rent. Atebodd yr Arweinydd fod mater tai yn flaenoriaeth sylfaenol ganddo a bod trafodaethau wedi digwydd eisoes gyda chymdeithasau tai i symud hyn ymhellach. O adnabod lle mae'r angen a beth ydi'r angen, gellid ymchwilio i sut y gall y Cyngor gynorthwyo'r cymdeithasau tai ac 'roedd yn awyddus i weld adeiladau ar eu traed ac wedi eu gosod.
- Mewn ymateb i ymholiad, nododd yr Arweinydd nad rhestr o ddymuniadau'n unig oedd y cynllun a bod yna lawer mwy o fanylder i'w gael ar y cynlluniau unigol na'r hyn a gynhwyswyd yn y ddogfen. Cynllun gweithredu ydoedd ac 'roedd yna ddatblygu ar fanylion. Byddai'n cael ei ddatblygu'n gyson ac o bosib' y byddai yna newid cyfeiriad.
- Holwyd a gysylltwyd â'r Adran Gynllunio ynglŷn â Blaenoriaeth Gwella 4 – Sicrhau mwy o gyflenwad o dai addas ar gyfer ein trigolion. Atebodd yr Arweinydd fod y polisi cynllunio wedi'i drafod fel mater cwbl ar wahân. 'Roedd materion cynllunio yn effeithio ar faterion fel hyn, ond nid oedd gan y Cyngor ddewis ond gweithredu o fewn ei bolisïau. 'Roedd y cwestiwn cynllunio wedi codi yn y trafodaethau ar dwf economaidd ac 'roedd cynllunio yn cyffwrdd â phopeth. Os oedd polisïau cynllunio'r Cyngor yn rhy gaeth, 'roedd lle i adolygu rhain hefyd a gallai'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd edrych arnynt.
- Mynegwyd pryder bod polisïau cynllunio lleol yn aml yn cael eu cyfyngu gan bolisïau cenedlaethol a hynny'n cael ei adlewyrchu ym mhenderfyniadau Arolygwyr Cynllunio.
- Croesawyd y cynllun peilot 'Plant yn Gyntaf' yn ardal Maesgeirchen, Bangor a mynegwyd dymuniad i weld y cynllun yn cael ei ymestyn i ardaloedd difreintiedig eraill ym Mangor fel Stad Maestryfan, Tai Stesion a Choed Mawr. Atebodd yr Arweinydd ei fod yn tybio bod y cynllun hwn wedi'i ariannu gan y Llywodraeth ac felly'n ddibynnol ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ond ei fod yn derbyn y sylw.
- Mynegwyd siomedigaeth mai ond 86 o'r 245 o dai a ganiatawyd ym Mhenrhosgarnedd oedd yn dai fforddiadwy.
- Nodwyd bod y cynllun yn cyfeirio at yr hyn mae'r adrannau unigol wedi'i gyflawni a mynegwyd dymuniad i weld mwy o bwyslais ar gydweithio rhwng yr adrannau.
- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Arweinydd bod ganddo lwyr ffydd bod ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid am roi gwell darpariaeth i gyfarch anghenion pobl ifanc y sir, ond y bydd angen cadw golwg ar sut mae'n gweithredu a beth fydd canlyniad y trefniadau newydd.
- Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd yr Arweinydd na allai warantu y byddai Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy yn agored am byth, ond y mawr obeithiai y byddai'n parhau. 'Roedd yn fwy o gyfrifoldeb cenedlaethol nag yn gyfrifoldeb i'r Cyngor hwn yn unig, a phe gallai'r Cyngor gynnig unrhyw gymorth i sicrhau dyfodol

yr amgueddfa, byddai'n gwneud hynny. Holwyd pa gynnydd a wnaed o ran chwilio am arian tuag at sefydlu'r adeilad fel amgueddfa genedlaethol. Atebodd yr Arweinydd y gallai ddod yn ôl gyda mwy o fanylion ar unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd.

- Holwyd sut y byddai tynnu arian oddi ar y Mudiad Ffermwyr Ifanc yn gwella cefnogaeth i blant a phobl ifanc yng nghefn gwlad. Atebodd yr Arweinydd y byddai'r drefn newydd yn targedu mwy o bobl ifanc nag oedd yn cael eu cynnwys yn flaenorol. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi ymestyn eu cynhaliaeth am flwyddyn yn barod ac yn mynd i ymestyn am 9 mis arall a hefyd wedi cynnig cefnogaeth y Gwasanaeth Adfywio i geisio eu cynorthwyo i wynebu'r toriad.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2018/23.**

## 13. AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i ymateb i gynigion drafft y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ar gyfer yr arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Gwynedd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Bod cynigion drafft y Comisiwn yn mynd yn erbyn argymhellion y Cyngor hwn a'r cynghorau cymuned.
- Pryder ynglŷn ag uno rhai wardiau – cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'n cyflwyno dadl gref i'r Comisiwn yn erbyn etholaethau dau aelod.
- Pryder bod yr amserlen ar gyfer ymateb i gynigion drafft y Comisiwn mor dynn.
- Aneglurder ynglŷn â'r hyn sydd wedi'i gytuno ynglŷn â Ward Abersoch a rhai wardiau eraill ac, yn wyneb hynny, awgrymwyd gwrthod adroddiad y Comisiwn yn ei gyfanrwydd. Atebodd y Prif Weithredwr nad oedd gwrthod yr adroddiad yn opsiwn a'r unig ddewis arall oedd cadarnhau'r cynigion gwreiddiol a roddwyd gerbron y Comisiwn ym Mehefin 2017. Fodd bynnag, 'roedd yr argymhelliad i gynnal trafodaethau gyda'r aelodau lleol yn y lleoedd hynny lle mae'r aelodau lleol yn ystyried y byddai'n ddarbodus cynnig dewis amgen yn rhoi cyfle i aelodau yn yr ardaloedd hynny gael gwell canlyniad.
- Pryder y byddai cynnwys Llanfrothen oddi fewn i Ward Tremadog yn golygu y byddai'r ward newydd yn cynnwys rhannau o 4 cymuned wahanol ac yn pontio ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd.
- Nad oedd rhai o gynigion y Comisiwn yn cymryd y ffin naturiol rhwng wardiau i ystyriaeth.
- Bod cynnig y Comisiwn i gadw Ward Dyffryn Ardudwy fel y mae ac uno Wardiau Llanbedr a Harlech yn well na'r hyn roddwyd ymlaen gan y Cyngor yn wreiddiol, sef uno Dyffryn Ardudwy gyda Llanbedr. Atebodd y Prif Weithredwr, petai aelodau'n teimlo bod rhai o gynigion y Comisiwn yn rhagori ar yr hyn a roddwyd gerbron gan y Cyngor, y gellid peidio gwthio cynigion y Cyngor mor gryf, ond bod angen y drafodaeth.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Bod y Cyngor yn cytuno i ymateb drwy ail ddatgan cynigion y Cyngor a phwyso'r Comisiwn i dderbyn yr hyn oedd yn ein cynigion gwreiddiol, ond gan awdurdodi'r Prif Weithredwr i gynnal trafodaethau gydag aelodau lleol yn y lleoedd hynny lle mae'r aelodau lleol yn ystyried y byddai'n ddarbodus cynnig dewis amgen, ac awdurdodi'r Cabinet i gynnwys y dewis amgen hwnnw yn yr ymateb ffurfiol os yw'r holl aelodau lleol yn unfrydol yn eu barn.**

**(b) Bod y Cyngor yn awdurdodi'r Cabinet i awgrymu enwau gwahanol ar gyfer wardiau i'r hyn sydd yn nghynigion y Comisiwn os oes dymuniad lleol i wneud hynny.**

**14. CALENDR PWYLLGORAU 2018/19**

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2018/19.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2018/19.**

**15. RHYBUDDION O GYNNIG**

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elin Walker Jones o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod:**

- **Llygredd plastig yn broblem amgylcheddol enfawr sydd yn peryglu bywyd morol.**
- **12.7 miliwn tunnel o blastig yn mynd i mewn i'n moroedd bob blwyddyn. Mae hyn gyfwerth â llond tryc o wastraff bob munud.**
- **Darnau o blastig yn achosi marwolaeth miliwn o adar môr a 100,000 o famaliaid dyfrol, yn ôl UNESCO.**
- **Gwastraff plastig yn bla ar dirwedd, traethau a moroedd prydferth Cymru.**

**Noda'r Cyngor ymhellach bod:**

- **Gweithrediad arloesol Cymru o godi ffi ar fagiau siopa untro wedi arwain at ostyngiad o 71% yn nefnydd bagiau untro o fewn tair blynedd gyntaf y cynllun.**
- **Mudiadau amgylcheddol rhyngwladol megis Greenpeace wedi galw'n ddiweddar ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i godi toll ar wastraff plastig megis cwpanau coffi na ellir eu hailgylchu.**
- **Y Cynulliad wedi pleidleisio o blaid gwelliant Plaid Cymru yn ddiweddar i gefnogi cynlluniau i godi toll ar blastigion untro yng Nghymru.**

**Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru:**

**I weithredu ar frys er mwyn gweithredu toll ar blastigion untro yng Nghymru ac hefyd i ystyried codi toll ar bob plastig i helpu sicrhau bod moroedd Cymru yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fioamrywiol."**

Mynegwyd cefnogaeth gref i'r cynnig gan sawl aelod a chynigiwyd ychwanegu'r geiriad a ganlyn at y cynnig gwreiddiol:-

**"Ein bod yn cynnal ymchwiliad i ddefnydd Cyngor Gwynedd o blastigion defnydd untro er mwyn asesu sut a ble y gallwn leihau'r defnydd hwnnw gyda'r nod o ddod yn gyngor di-blastig."**

Cytunodd cynigydd y cynnig gwreiddiol i ddiwygio'r cynnig ar y llinellau yma gyda chydsyniad y Cyngor.

Diolchwyd i Cadw Gymru'n Daclus am drefnu sesiwn glanhau Traeth Porth Neigwl yn ddiweddar.

**PENDERFYNWYD**
**Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod:**

- **Llygredd plastig yn broblem amgylcheddol enfawr sydd yn peryglu bywyd morol.**
- **12.7 miliwn tunnel o blastig yn mynd i mewn i'n moroedd bob blwyddyn. Mae hyn gyfwerth â llond tryc o wastraff bob munud.**
- **Darnau o blasting yn achosi marwolaeth miliwn o adar môr a 100,000 o famaliaid dyfrol, yn ôl UNESCO.**
- **Gwastraff plastig yn bla ar dirwedd, traethau a moroedd prydferth Cymru.**

**Noda'r Cyngor ymhellach bod:**

- **Gweithrediad arloesol Cymru o godi ffi ar fagiau siopa untro wedi arwain at ostyngiad o 71% yn nefnydd bagiau untro o fewn tair blynedd gyntaf y cynllun.**
- **Mudiadau amgylcheddol rhyngwladol megis Greenpeace wedi galw'n ddiweddar ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i godi toll ar wastraff plastig megis cwpanau coffi na ellir eu hailgylchu.**
- **Y Cynulliad wedi pleidleisio o blaid gwelliant Plaid Cymru yn ddiweddar i gefnogi cynlluniau i godi toll ar blastigion untro yng Nghymru.**

**Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru:**

**I weithredu ar frys er mwyn gweithredu toll ar blastigion untro yng Nghymru ac hefyd i ystyried codi toll ar bob plastig i helpu sicrhau bod moroedd Cymru yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fioamrywiol.**

**Ein bod yn cynnal ymchwiliad i ddefnydd Cyngor Gwynedd o blastigion defnydd untro er mwyn asesu sut a ble y gallwn leihau'r defnydd hwnnw gyda'r nod o ddod yn gyngor di-blastig.**

## 16. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth:-

(a) Llythyr gan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Dyfrig Siencyn i gyfarfod 14 Rhagfyr, 2017 mewn perthynas â'r sefyllfa yng Nghatalwnia.
(b) Llythyr gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Owain Williams i gyfarfod 14 Rhagfyr, 2017 mewn perthynas ag addysgu hanes Cymru.
(c) Llythyr gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Craig ab Iago i gyfarfod 14 Rhagfyr, 2017 mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y llythyrau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 5.40 y.h.

**CADEIRYDD**

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 884.94 | 1,032.43 | 1,179.92 | 1,327.41 | 1,622.39 | 1,917.37 | 2,212.35 | 2,654.82 | 3,097.29 |
| Aberdyfi | 890.21 | 1,038.58 | 1,186.95 | 1,335.32 | 1,632.06 | 1,928.80 | 2,225.53 | 2,670.64 | 3,115.75 |
| Abergwyngregyn | 884.27 | 1,031.65 | 1,179.03 | 1,326.41 | 1,621.17 | 1,915.93 | 2,210.68 | 2,652.82 | 3,094.96 |
| Abermaw (Barmouth) | 898.69 | 1,048.48 | 1,198.26 | 1,348.04 | 1,647.60 | 1,947.17 | 2,246.73 | 2,696.08 | 3,145.43 |
| Arthog | 879.65 | 1,026.26 | 1,172.87 | 1,319.48 | 1,612.70 | 1,905.92 | 2,199.13 | 2,638.96 | 3,078.79 |
| Y Bala | 887.67 | 1,035.62 | 1,183.56 | 1,331.51 | 1,627.40 | 1,923.29 | 2,219.18 | 2,663.02 | 3,106.86 |
| Bangor | 932.84 | 1,088.31 | 1,243.79 | 1,399.26 | 1,710.21 | 2,021.15 | 2,332.10 | 2,798.52 | 3,264.94 |
| Beddgelert | 884.84 | 1,032.31 | 1,179.79 | 1,327.26 | 1,622.21 | 1,917.15 | 2,212.10 | 2,654.52 | 3,096.94 |
| Betws Garmon | 879.74 | 1,026.36 | 1,172.99 | 1,319.61 | 1,612.86 | 1,906.10 | 2,199.35 | 2,639.22 | 3,079.09 |
| Bethesda | 893.80 | 1,042.77 | 1,191.73 | 1,340.70 | 1,638.63 | 1,936.57 | 2,234.50 | 2,681.40 | 3,128.30 |
| Bontnewydd | 892.35 | 1,041.07 | 1,189.80 | 1,338.52 | 1,635.97 | 1,933.42 | 2,230.87 | 2,677.04 | 3,123.21 |
| Botwnnog | 875.07 | 1,020.91 | 1,166.76 | 1,312.60 | 1,604.29 | 1,895.98 | 2,187.67 | 2,625.20 | 3,062.73 |
| Brithdir & Llanfachreth | 876.49 | 1,022.58 | 1,168.66 | 1,314.74 | 1,606.90 | 1,899.07 | 2,191.23 | 2,629.48 | 3,067.73 |
| Bryncrug | 890.35 | 1,038.75 | 1,187.14 | 1,335.53 | 1,632.31 | 1,929.10 | 2,225.88 | 2,671.06 | 3,116.24 |
| Buan | 877.90 | 1,024.22 | 1,170.53 | 1,316.85 | 1,609.48 | 1,902.12 | 2,194.75 | 2,633.70 | 3,072.65 |
| Caernarfon | 904.59 | 1,055.35 | 1,206.12 | 1,356.88 | 1,658.41 | 1,959.94 | 2,261.47 | 2,713.76 | 3,166.05 |
| Clynnog Fawr | 884.87 | 1,032.35 | 1,179.83 | 1,327.31 | 1,622.27 | 1,917.23 | 2,212.18 | 2,654.62 | 3,097.06 |
| Corris | 883.19 | 1,030.39 | 1,177.59 | 1,324.79 | 1,619.19 | 1,913.59 | 2,207.98 | 2,649.58 | 3,091.18 |
| Criccieth | 892.61 | 1,041.38 | 1,190.15 | 1,338.92 | 1,636.46 | 1,934.00 | 2,231.53 | 2,677.84 | 3,124.15 |
| Dolbenmaen | 879.95 | 1,026.60 | 1,173.26 | 1,319.92 | 1,613.24 | 1,906.55 | 2,199.87 | 2,639.84 | 3,079.81 |
| Dolgellau | 896.11 | 1,045.47 | 1,194.82 | 1,344.17 | 1,642.87 | 1,941.58 | 2,240.28 | 2,688.34 | 3,136.40 |
| Dyffryn Ardudwy | 891.85 | 1,040.50 | 1,189.14 | 1,337.78 | 1,635.06 | 1,932.35 | 2,229.63 | 2,675.56 | 3,121.49 |
| Y Felinheli | 887.27 | 1,035.15 | 1,183.03 | 1,330.91 | 1,626.67 | 1,922.43 | 2,218.18 | 2,661.82 | 3,105.46 |
| Ffestiniog | 943.54 | 1,100.80 | 1,258.05 | 1,415.31 | 1,729.82 | 2,044.34 | 2,358.85 | 2,830.62 | 3,302.39 |
| Y Ganllwyd | 889.26 | 1,037.47 | 1,185.68 | 1,333.89 | 1,630.31 | 1,926.73 | 2,223.15 | 2,667.78 | 3,112.41 |
| Harlech | 926.25 | 1,080.63 | 1,235.00 | 1,389.38 | 1,698.13 | 2,006.88 | 2,315.63 | 2,778.76 | 3,241.89 |
| Llanaelhaearn | 903.98 | 1,054.64 | 1,205.31 | 1,355.97 | 1,657.30 | 1,958.62 | 2,259.95 | 2,711.94 | 3,163.93 |
| Llanbedr | 896.41 | 1,045.82 | 1,195.22 | 1,344.62 | 1,643.42 | 1,942.23 | 2,241.03 | 2,689.24 | 3,137.45 |
| Llanbedrog | 883.64 | 1,030.91 | 1,178.19 | 1,325.46 | 1,620.01 | 1,914.55 | 2,209.10 | 2,650.92 | 3,092.74 |
| Llanberis | 887.73 | 1,035.69 | 1,183.64 | 1,331.60 | 1,627.51 | 1,923.42 | 2,219.33 | 2,663.20 | 3,107.07 |
| Llandwrog | 898.48 | 1,048.23 | 1,197.97 | 1,347.72 | 1,647.21 | 1,946.71 | 2,246.20 | 2,695.44 | 3,144.68 |
| Llandygai | 881.76 | 1,028.72 | 1,175.68 | 1,322.64 | 1,616.56 | 1,910.48 | 2,204.40 | 2,645.28 | 3,086.16 |
| Llanddeiniolen | 876.59 | 1,022.68 | 1,168.78 | 1,314.88 | 1,607.08 | 1,899.27 | 2,191.47 | 2,629.76 | 3,068.05 |
| Llandderfel | 878.71 | 1,025.16 | 1,171.61 | 1,318.06 | 1,610.96 | 1,903.86 | 2,196.77 | 2,636.12 | 3,075.47 |
| Llanegryn | 888.05 | 1,036.06 | 1,184.07 | 1,332.08 | 1,628.10 | 1,924.12 | 2,220.13 | 2,664.16 | 3,108.19 |
| Llanelltyd | 884.31 | 1,031.70 | 1,179.08 | 1,326.47 | 1,621.24 | 1,916.01 | 2,210.78 | 2,652.94 | 3,095.10 |
| Llanengan | 882.45 | 1,029.53 | 1,176.60 | 1,323.68 | 1,617.83 | 1,911.98 | 2,206.13 | 2,647.36 | 3,088.59 |
| Llanfair | 894.01 | 1,043.02 | 1,192.02 | 1,341.02 | 1,639.02 | 1,937.03 | 2,235.03 | 2,682.04 | 3,129.05 |
| Llanfihangel y Pennant | 899.95 | 1,049.94 | 1,199.93 | 1,349.92 | 1,649.90 | 1,949.88 | 2,249.87 | 2,699.84 | 3,149.81 |
| Llanfrothen | 885.66 | 1,033.27 | 1,180.88 | 1,328.49 | 1,623.71 | 1,918.93 | 2,214.15 | 2,656.98 | 3,099.81 |
| Llangelynnin | 883.00 | 1,030.17 | 1,177.33 | 1,324.50 | 1,618.83 | 1,913.17 | 2,207.50 | 2,649.00 | 3,090.50 |
| Llangywer | 885.53 | 1,033.12 | 1,180.71 | 1,328.30 | 1,623.48 | 1,918.66 | 2,213.83 | 2,656.60 | 3,099.37 |
| Llanllechid | 881.53 | 1,028.46 | 1,175.38 | 1,322.30 | 1,616.14 | 1,909.99 | 2,203.83 | 2,644.60 | 3,085.37 |
| Llanllyfni | 885.99 | 1,033.66 | 1,181.32 | 1,328.99 | 1,624.32 | 1,919.65 | 2,214.98 | 2,657.98 | 3,100.98 |
| Llannor | 879.14 | 1,025.66 | 1,172.19 | 1,318.71 | 1,611.76 | 1,904.80 | 2,197.85 | 2,637.42 | 3,076.99 |
| Llanrug | 891.62 | 1,040.22 | 1,188.83 | 1,337.43 | 1,634.64 | 1,931.84 | 2,229.05 | 2,674.86 | 3,120.67 |
| Llanuwchllyn | 888.02 | 1,036.02 | 1,184.03 | 1,332.03 | 1,628.04 | 1,924.04 | 2,220.05 | 2,664.06 | 3,108.07 |
| Llanwnda | 888.31 | 1,036.37 | 1,184.42 | 1,332.47 | 1,628.57 | 1,924.68 | 2,220.78 | 2,664.94 | 3,109.10 |
| Llanycil | 880.60 | 1,027.37 | 1,174.13 | 1,320.90 | 1,614.43 | 1,907.97 | 2,201.50 | 2,641.80 | 3,082.10 |
| Llanystumdwy | 878.45 | 1,024.85 | 1,171.26 | 1,317.67 | 1,610.49 | 1,903.30 | 2,196.12 | 2,635.34 | 3,074.56 |
| Maentwrog | 881.19 | 1,028.05 | 1,174.92 | 1,321.78 | 1,615.51 | 1,909.24 | 2,202.97 | 2,643.56 | 3,084.15 |
| Mawddwy | 883.26 | 1,030.47 | 1,177.68 | 1,324.89 | 1,619.31 | 1,913.73 | 2,208.15 | 2,649.78 | 3,091.41 |
| Nefyn | 894.52 | 1,043.61 | 1,192.69 | 1,341.78 | 1,639.95 | 1,938.13 | 2,236.30 | 2,683.56 | 3,130.82 |
| Pennal | 884.66 | 1,032.10 | 1,179.55 | 1,326.99 | 1,621.88 | 1,916.76 | 2,211.65 | 2,653.98 | 3,096.31 |
| Penrhyndeudraeth | 897.79 | 1,047.42 | 1,197.05 | 1,346.68 | 1,645.94 | 1,945.20 | 2,244.47 | 2,693.36 | 3,142.25 |
| Pentir | 896.31 | 1,045.70 | 1,195.08 | 1,344.47 | 1,643.24 | 1,942.01 | 2,240.78 | 2,688.94 | 3,137.10 |
| Pistyll | 889.34 | 1,037.56 | 1,185.79 | 1,334.01 | 1,630.46 | 1,926.90 | 2,223.35 | 2,668.02 | 3,112.69 |
| Porthmadog | 885.61 | 1,033.22 | 1,180.82 | 1,328.42 | 1,623.62 | 1,918.83 | 2,214.03 | 2,656.84 | 3,099.65 |
| Pwllheli | 894.70 | 1,043.82 | 1,192.93 | 1,342.05 | 1,640.28 | 1,938.52 | 2,236.75 | 2,684.10 | 3,131.45 |
| Talsarnau | 908.03 | 1,059.36 | 1,210.70 | 1,362.04 | 1,664.72 | 1,967.39 | 2,270.07 | 2,724.08 | 3,178.09 |
| Trawsfynydd | 890.70 | 1,039.15 | 1,187.60 | 1,336.05 | 1,632.95 | 1,929.85 | 2,226.75 | 2,672.10 | 3,117.45 |
| Tudweiliog | 875.54 | 1,021.46 | 1,167.39 | 1,313.31 | 1,605.16 | 1,897.00 | 2,188.85 | 2,626.62 | 3,064.39 |
| Tywyn | 903.35 | 1,053.91 | 1,204.47 | 1,355.03 | 1,656.15 | 1,957.27 | 2,258.38 | 2,710.06 | 3,161.74 |
| Waunfawr | 880.96 | 1,027.79 | 1,174.61 | 1,321.44 | 1,615.09 | 1,908.75 | 2,202.40 | 2,642.88 | 3,083.36 |

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned + Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council + North Wales Police and Crime Commissioner**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,057.02 | 1,233.19 | 1,409.36 | 1,585.53 | 1,937.87 | 2,290.21 | 2,642.55 | 3,171.06 | 3,699.57 |
| Aberdyfi | 1,062.29 | 1,239.34 | 1,416.39 | 1,593.44 | 1,947.54 | 2,301.64 | 2,655.73 | 3,186.88 | 3,718.03 |
| Abergwyngregyn | 1,056.35 | 1,232.41 | 1,408.47 | 1,584.53 | 1,936.65 | 2,288.77 | 2,640.88 | 3,169.06 | 3,697.24 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,070.77 | 1,249.24 | 1,427.70 | 1,606.16 | 1,963.08 | 2,320.01 | 2,676.93 | 3,212.32 | 3,747.71 |
| Arthog | 1,051.73 | 1,227.02 | 1,402.31 | 1,577.60 | 1,928.18 | 2,278.76 | 2,629.33 | 3,155.20 | 3,681.07 |
| Bala | 1,059.75 | 1,236.38 | 1,413.00 | 1,589.63 | 1,942.88 | 2,296.13 | 2,649.38 | 3,179.26 | 3,709.14 |
| Bangor | 1,104.92 | 1,289.07 | 1,473.23 | 1,657.38 | 2,025.69 | 2,393.99 | 2,762.30 | 3,314.76 | 3,867.22 |
| Beddgelert | 1,056.92 | 1,233.07 | 1,409.23 | 1,585.38 | 1,937.69 | 2,289.99 | 2,642.30 | 3,170.76 | 3,699.22 |
| Betws Garmon | 1,051.82 | 1,227.12 | 1,402.43 | 1,577.73 | 1,928.34 | 2,278.94 | 2,629.55 | 3,155.46 | 3,681.37 |
| Bethesda | 1,065.88 | 1,243.53 | 1,421.17 | 1,598.82 | 1,954.11 | 2,309.41 | 2,664.70 | 3,197.64 | 3,730.58 |
| Bontnewydd | 1,064.43 | 1,241.83 | 1,419.24 | 1,596.64 | 1,951.45 | 2,306.26 | 2,661.07 | 3,193.28 | 3,725.49 |
| Botwnnog | 1,047.15 | 1,221.67 | 1,396.20 | 1,570.72 | 1,919.77 | 2,268.82 | 2,617.87 | 3,141.44 | 3,665.01 |
| Brithdir & Llanfachreth | 1,048.57 | 1,223.34 | 1,398.10 | 1,572.86 | 1,922.38 | 2,271.91 | 2,621.43 | 3,145.72 | 3,670.01 |
| Bryncrug | 1,062.43 | 1,239.51 | 1,416.58 | 1,593.65 | 1,947.79 | 2,301.94 | 2,656.08 | 3,187.30 | 3,718.52 |
| Buan | 1,049.98 | 1,224.98 | 1,399.97 | 1,574.97 | 1,924.96 | 2,274.96 | 2,624.95 | 3,149.94 | 3,674.93 |
| Caernarfon | 1,076.67 | 1,256.11 | 1,435.56 | 1,615.00 | 1,973.89 | 2,332.78 | 2,691.67 | 3,230.00 | 3,768.33 |
| Clynnog Fawr | 1,056.95 | 1,233.11 | 1,409.27 | 1,585.43 | 1,937.75 | 2,290.07 | 2,642.38 | 3,170.86 | 3,699.34 |
| Corris | 1,055.27 | 1,231.15 | 1,407.03 | 1,582.91 | 1,934.67 | 2,286.43 | 2,638.18 | 3,165.82 | 3,693.46 |
| Criccieth | 1,064.69 | 1,242.14 | 1,419.59 | 1,597.04 | 1,951.94 | 2,306.84 | 2,661.73 | 3,194.08 | 3,726.43 |
| Dolbenmaen | 1,052.03 | 1,227.36 | 1,402.70 | 1,578.04 | 1,928.72 | 2,279.39 | 2,630.07 | 3,156.08 | 3,682.09 |
| Dolgellau | 1,068.19 | 1,246.23 | 1,424.26 | 1,602.29 | 1,958.35 | 2,314.42 | 2,670.48 | 3,204.58 | 3,738.68 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,063.93 | 1,241.26 | 1,418.58 | 1,595.90 | 1,950.54 | 2,305.19 | 2,659.83 | 3,191.80 | 3,723.77 |
| Y Felinheli | 1,059.35 | 1,235.91 | 1,412.47 | 1,589.03 | 1,942.15 | 2,295.27 | 2,648.38 | 3,178.06 | 3,707.74 |
| Ffestiniog | 1,115.62 | 1,301.56 | 1,487.49 | 1,673.43 | 2,045.30 | 2,417.18 | 2,789.05 | 3,346.86 | 3,904.67 |
| Y Ganllwyd | 1,061.34 | 1,238.23 | 1,415.12 | 1,592.01 | 1,945.79 | 2,299.57 | 2,653.35 | 3,184.02 | 3,714.69 |
| Harlech | 1,098.33 | 1,281.39 | 1,464.44 | 1,647.50 | 2,013.61 | 2,379.72 | 2,745.83 | 3,295.00 | 3,844.17 |
| Llanaelhaearn | 1,076.06 | 1,255.40 | 1,434.75 | 1,614.09 | 1,972.78 | 2,331.46 | 2,690.15 | 3,228.18 | 3,766.21 |
| Llanbedr | 1,068.49 | 1,246.58 | 1,424.66 | 1,602.74 | 1,958.90 | 2,315.07 | 2,671.23 | 3,205.48 | 3,739.73 |
| Llanbedrog | 1,055.72 | 1,231.67 | 1,407.63 | 1,583.58 | 1,935.49 | 2,287.39 | 2,639.30 | 3,167.16 | 3,695.02 |
| Llanberis | 1,059.81 | 1,236.45 | 1,413.08 | 1,589.72 | 1,942.99 | 2,296.26 | 2,649.53 | 3,179.44 | 3,709.35 |
| Llandwrog | 1,070.56 | 1,248.99 | 1,427.41 | 1,605.84 | 1,962.69 | 2,319.55 | 2,676.40 | 3,211.68 | 3,746.96 |
| Llandygai | 1,053.84 | 1,229.48 | 1,405.12 | 1,580.76 | 1,932.04 | 2,283.32 | 2,634.60 | 3,161.52 | 3,688.44 |
| Llanddeiniolen | 1,048.67 | 1,223.44 | 1,398.22 | 1,573.00 | 1,922.56 | 2,272.11 | 2,621.67 | 3,146.00 | 3,670.33 |
| Llandderfel | 1,050.79 | 1,225.92 | 1,401.05 | 1,576.18 | 1,926.44 | 2,276.70 | 2,626.97 | 3,152.36 | 3,677.75 |
| Llanegryn | 1,060.13 | 1,236.82 | 1,413.51 | 1,590.20 | 1,943.58 | 2,296.96 | 2,650.33 | 3,180.40 | 3,710.47 |
| Llanelltyd | 1,056.39 | 1,232.46 | 1,408.52 | 1,584.59 | 1,936.72 | 2,288.85 | 2,640.98 | 3,169.18 | 3,697.38 |
| Llanengan | 1,054.53 | 1,230.29 | 1,406.04 | 1,581.80 | 1,933.31 | 2,284.82 | 2,636.33 | 3,163.60 | 3,690.87 |
| Llanfair | 1,066.09 | 1,243.78 | 1,421.46 | 1,599.14 | 1,954.50 | 2,309.87 | 2,665.23 | 3,198.28 | 3,731.33 |
| Llanfihangel y Pennant | 1,072.03 | 1,250.70 | 1,429.37 | 1,608.04 | 1,965.38 | 2,322.72 | 2,680.07 | 3,216.08 | 3,752.09 |
| Llanfrothen | 1,057.74 | 1,234.03 | 1,410.32 | 1,586.61 | 1,939.19 | 2,291.77 | 2,644.35 | 3,173.22 | 3,702.09 |
| Llangelynnin | 1,055.08 | 1,230.93 | 1,406.77 | 1,582.62 | 1,934.31 | 2,286.01 | 2,637.70 | 3,165.24 | 3,692.78 |
| Llangywer | 1,057.61 | 1,233.88 | 1,410.15 | 1,586.42 | 1,938.96 | 2,291.50 | 2,644.03 | 3,172.84 | 3,701.65 |
| Llanllechid | 1,053.61 | 1,229.22 | 1,404.82 | 1,580.42 | 1,931.62 | 2,282.83 | 2,634.03 | 3,160.84 | 3,687.65 |
| Llanllyfni | 1,058.07 | 1,234.42 | 1,410.76 | 1,587.11 | 1,939.80 | 2,292.49 | 2,645.18 | 3,174.22 | 3,703.26 |
| Llannor | 1,051.22 | 1,226.42 | 1,401.63 | 1,576.83 | 1,927.24 | 2,277.64 | 2,628.05 | 3,153.66 | 3,679.27 |
| Llanrug | 1,063.70 | 1,240.98 | 1,418.27 | 1,595.55 | 1,950.12 | 2,304.68 | 2,659.25 | 3,191.10 | 3,722.95 |
| Llanuwchllyn | 1,060.10 | 1,236.78 | 1,413.47 | 1,590.15 | 1,943.52 | 2,296.88 | 2,650.25 | 3,180.30 | 3,710.35 |
| Llanwnda | 1,060.39 | 1,237.13 | 1,413.86 | 1,590.59 | 1,944.05 | 2,297.52 | 2,650.98 | 3,181.18 | 3,711.38 |
| Llanycil | 1,052.68 | 1,228.13 | 1,403.57 | 1,579.02 | 1,929.91 | 2,280.81 | 2,631.70 | 3,158.04 | 3,684.38 |
| Llanystumdwy | 1,050.53 | 1,225.61 | 1,400.70 | 1,575.79 | 1,925.97 | 2,276.14 | 2,626.32 | 3,151.58 | 3,676.84 |
| Maentwrog | 1,053.27 | 1,228.81 | 1,404.36 | 1,579.90 | 1,930.99 | 2,282.08 | 2,633.17 | 3,159.80 | 3,686.43 |
| Mawddwy | 1,055.34 | 1,231.23 | 1,407.12 | 1,583.01 | 1,934.79 | 2,286.57 | 2,638.35 | 3,166.02 | 3,693.69 |
| Nefyn | 1,066.60 | 1,244.37 | 1,422.13 | 1,599.90 | 1,955.43 | 2,310.97 | 2,666.50 | 3,199.80 | 3,733.10 |
| Pennal | 1,056.74 | 1,232.86 | 1,408.99 | 1,585.11 | 1,937.36 | 2,289.60 | 2,641.85 | 3,170.22 | 3,698.59 |
| Penrhyndeudraeth | 1,069.87 | 1,248.18 | 1,426.49 | 1,604.80 | 1,961.42 | 2,318.04 | 2,674.67 | 3,209.60 | 3,744.53 |
| Pentir | 1,068.39 | 1,246.46 | 1,424.52 | 1,602.59 | 1,958.72 | 2,314.85 | 2,670.98 | 3,205.18 | 3,739.38 |
| Pistyll | 1,061.42 | 1,238.32 | 1,415.23 | 1,592.13 | 1,945.94 | 2,299.74 | 2,653.55 | 3,184.26 | 3,714.97 |
| Porthmadog | 1,057.69 | 1,233.98 | 1,410.26 | 1,586.54 | 1,939.10 | 2,291.67 | 2,644.23 | 3,173.08 | 3,701.93 |
| Pwllheli | 1,066.78 | 1,244.58 | 1,422.37 | 1,600.17 | 1,955.76 | 2,311.36 | 2,666.95 | 3,200.34 | 3,733.73 |
| Talsarnau | 1,080.11 | 1,260.12 | 1,440.14 | 1,620.16 | 1,980.20 | 2,340.23 | 2,700.27 | 3,240.32 | 3,780.37 |
| Trawsfynydd | 1,062.78 | 1,239.91 | 1,417.04 | 1,594.17 | 1,948.43 | 2,302.69 | 2,656.95 | 3,188.34 | 3,719.73 |
| Tudweiliog | 1,047.62 | 1,222.22 | 1,396.83 | 1,571.43 | 1,920.64 | 2,269.84 | 2,619.05 | 3,142.86 | 3,666.67 |
| Tywyn | 1,075.43 | 1,254.67 | 1,433.91 | 1,613.15 | 1,971.63 | 2,330.11 | 2,688.58 | 3,226.30 | 3,764.02 |
| Waunfawr | 1,053.04 | 1,228.55 | 1,404.05 | 1,579.56 | 1,930.57 | 2,281.59 | 2,632.60 | 3,159.12 | 3,685.64 |

## Cynnydd yn y Dreth Cyngor fesul Cymuned / Increase in Council Tax by Community

| Cymuned/ Community | Sylfaen Drethiannol / Taxbase (Band D) | Praesept / Precept £ | Treth Cymuned / Community Tax | Treth Gwynedd / Gwynedd Tax | Treth Heddlu / Police Tax | Cyfanswm / Total (Band D) 2018/19 | Band D 2017/18 | Cynnydd / Increase 17/18 - 18/19 | Cynnydd / Increase % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 558.08 | 15,000 | 26.88 | 1,300.53 | 258.12 | 1,585.53 | 1,515.09 | 70.44 | 4.6% |
| Aberdyfi | 1,004.77 | 34,955 | 34.79 | 1,300.53 | 258.12 | 1,593.44 | 1,524.60 | 68.84 | 4.5% |
| Abergwyngregyn | 115.92 | 3,000 | 25.88 | 1,300.53 | 258.12 | 1,584.53 | 1,511.68 | 72.85 | 4.8% |
| Abermaw (Barmouth) | 1,149.17 | 54,600 | 47.51 | 1,300.53 | 258.12 | 1,606.16 | 1,537.91 | 68.25 | 4.4% |
| Arthog | 633.10 | 12,000 | 18.95 | 1,300.53 | 258.12 | 1,577.60 | 1,505.50 | 72.10 | 4.8% |
| Y Bala | 774.81 | 24,000 | 30.98 | 1,300.53 | 258.12 | 1,589.63 | 1,519.13 | 70.50 | 4.6% |
| Bangor | 3,855.89 | 380,700 | 98.73 | 1,300.53 | 258.12 | 1,657.38 | 1,585.22 | 72.16 | 4.6% |
| Beddgelert | 332.99 | 8,900 | 26.73 | 1,300.53 | 258.12 | 1,585.38 | 1,517.86 | 67.52 | 4.4% |
| Betws Garmon | 136.30 | 2,600 | 19.08 | 1,300.53 | 258.12 | 1,577.73 | 1,509.74 | 67.99 | 4.5% |
| Bethesda | 1,669.25 | 67,060 | 40.17 | 1,300.53 | 258.12 | 1,598.82 | 1,525.49 | 73.33 | 4.8% |
| Bontnewydd | 434.36 | 16,500 | 37.99 | 1,300.53 | 258.12 | 1,596.64 | 1,525.92 | 70.72 | 4.6% |
| Botwnnog | 455.84 | 5,500 | 12.07 | 1,300.53 | 258.12 | 1,570.72 | 1,501.79 | 68.93 | 4.6% |
| Brithdir & Llanfachreth | 422.14 | 6,000 | 14.21 | 1,300.53 | 258.12 | 1,572.86 | 1,505.03 | 67.83 | 4.5% |
| Bryncrug | 342.88 | 12,000 | 35.00 | 1,300.53 | 258.12 | 1,593.65 | 1,526.14 | 67.51 | 4.4% |
| Buan | 229.85 | 3,750 | 16.32 | 1,300.53 | 258.12 | 1,574.97 | 1,507.12 | 67.85 | 4.5% |
| Caernarfon | 3,522.60 | 198,488 | 56.35 | 1,300.53 | 258.12 | 1,615.00 | 1,547.41 | 67.59 | 4.4% |
| Clynnog Fawr | 448.12 | 12,000 | 26.78 | 1,300.53 | 258.12 | 1,585.43 | 1,517.41 | 68.02 | 4.5% |
| Corris | 306.43 | 7,434 | 24.26 | 1,300.53 | 258.12 | 1,582.91 | 1,515.12 | 67.79 | 4.5% |
| Criccieth | 937.64 | 36,000 | 38.39 | 1,300.53 | 258.12 | 1,597.04 | 1,527.26 | 69.78 | 4.6% |
| Dolbenmaen | 618.87 | 12,000 | 19.39 | 1,300.53 | 258.12 | 1,578.04 | 1,507.24 | 70.80 | 4.7% |
| Dolgellau | 1,237.33 | 54,000 | 43.64 | 1,300.53 | 258.12 | 1,602.29 | 1,535.51 | 66.78 | 4.3% |
| Dyffryn Ardudwy | 798.44 | 29,742 | 37.25 | 1,300.53 | 258.12 | 1,595.90 | 1,528.62 | 67.28 | 4.4% |
| Y Felinheli | 1,152.14 | 35,000 | 30.38 | 1,300.53 | 258.12 | 1,589.03 | 1,521.34 | 67.69 | 4.4% |
| Ffestiniog | 1,742.49 | 200,000 | 114.78 | 1,300.53 | 258.12 | 1,673.43 | 1,579.03 | 94.40 | 6.0% |
| Y Ganllwyd | 89.93 | 3,000 | 33.36 | 1,300.53 | 258.12 | 1,592.01 | 1,524.39 | 67.62 | 4.4% |
| Harlech | 787.85 | 70,000 | 88.85 | 1,300.53 | 258.12 | 1,647.50 | 1,514.92 | 132.58 | 8.8% |
| Llanaelhaearn | 450.97 | 25,000 | 55.44 | 1,300.53 | 258.12 | 1,614.09 | 1,548.33 | 65.76 | 4.2% |
| Llanbedr | 321.91 | 14,193 | 44.09 | 1,300.53 | 258.12 | 1,602.74 | 1,535.39 | 67.35 | 4.4% |
| Llanbedrog | 714.05 | 17,800 | 24.93 | 1,300.53 | 258.12 | 1,583.58 | 1,515.25 | 68.33 | 4.5% |
| Llanberis | 772.34 | 24,000 | 31.07 | 1,300.53 | 258.12 | 1,589.72 | 1,516.16 | 73.56 | 4.9% |
| Llandwrog | 1,017.19 | 48,000 | 47.19 | 1,300.53 | 258.12 | 1,605.84 | 1,531.30 | 74.54 | 4.9% |
| Llandygai | 968.30 | 21,408 | 22.11 | 1,300.53 | 258.12 | 1,580.76 | 1,511.53 | 69.23 | 4.6% |
| Llanddeiniolen | 1,846.18 | 26,500 | 14.35 | 1,300.53 | 258.12 | 1,573.00 | 1,501.30 | 71.70 | 4.8% |
| Llandderfel | 513.32 | 9,000 | 17.53 | 1,300.53 | 258.12 | 1,576.18 | 1,512.89 | 63.29 | 4.2% |
| Llanegryn | 158.47 | 5,000 | 31.55 | 1,300.53 | 258.12 | 1,590.20 | 1,522.24 | 67.96 | 4.5% |
| Llanelltyd | 289.10 | 7,500 | 25.94 | 1,300.53 | 258.12 | 1,584.59 | 1,517.21 | 67.38 | 4.4% |
| Llanengan | 2,159.63 | 50,000 | 23.15 | 1,300.53 | 258.12 | 1,581.80 | 1,515.74 | 66.06 | 4.4% |
| Llanfair | 321.03 | 13,000 | 40.49 | 1,300.53 | 258.12 | 1,599.14 | 1,519.54 | 79.60 | 5.2% |
| Llanfihangel y Pennant | 217.76 | 10,755 | 49.39 | 1,300.53 | 258.12 | 1,608.04 | 1,541.95 | 66.09 | 4.3% |
| Llanfrothen | 225.29 | 6,300 | 27.96 | 1,300.53 | 258.12 | 1,586.61 | 1,517.05 | 69.56 | 4.6% |
| Llangelynnin | 408.83 | 9,800 | 23.97 | 1,300.53 | 258.12 | 1,582.62 | 1,510.04 | 72.58 | 4.8% |
| Llangywer | 144.05 | 4,000 | 27.77 | 1,300.53 | 258.12 | 1,586.42 | 1,519.78 | 66.64 | 4.4% |
| Llanllechid | 344.45 | 7,500 | 21.77 | 1,300.53 | 258.12 | 1,580.42 | 1,512.59 | 67.83 | 4.5% |
| Llanllyfni | 1,418.05 | 40,360 | 28.46 | 1,300.53 | 258.12 | 1,587.11 | 1,519.31 | 67.80 | 4.5% |
| Llannor | 916.27 | 16,660 | 18.18 | 1,300.53 | 258.12 | 1,576.83 | 1,507.05 | 69.78 | 4.6% |
| Llanrug | 1,138.32 | 42,000 | 36.90 | 1,300.53 | 258.12 | 1,595.55 | 1,517.65 | 77.90 | 5.1% |
| Llanuwchllyn | 317.47 | 10,000 | 31.50 | 1,300.53 | 258.12 | 1,590.15 | 1,522.77 | 67.38 | 4.4% |
| Llanwnda | 782.81 | 25,000 | 31.94 | 1,300.53 | 258.12 | 1,590.59 | 1,520.45 | 70.14 | 4.6% |
| Llanycil | 196.34 | 4,000 | 20.37 | 1,300.53 | 258.12 | 1,579.02 | 1,510.66 | 68.36 | 4.5% |
| Llanystumdwy | 875.24 | 15,000 | 17.14 | 1,300.53 | 258.12 | 1,575.79 | 1,507.69 | 68.10 | 4.5% |
| Maentwrog | 284.74 | 6,051 | 21.25 | 1,300.53 | 258.12 | 1,579.90 | 1,511.96 | 67.94 | 4.5% |
| Mawddwy | 344.88 | 8,400 | 24.36 | 1,300.53 | 258.12 | 1,583.01 | 1,514.18 | 68.83 | 4.5% |
| Nefyn | 1,467.95 | 60,558 | 41.25 | 1,300.53 | 258.12 | 1,599.90 | 1,534.07 | 65.83 | 4.3% |
| Pennal | 226.79 | 6,000 | 26.46 | 1,300.53 | 258.12 | 1,585.11 | 1,517.94 | 67.17 | 4.4% |
| Penrhyndeudraeth | 780.08 | 36,000 | 46.15 | 1,300.53 | 258.12 | 1,604.80 | 1,534.90 | 69.90 | 4.6% |
| Pentir | 1,138.01 | 50,000 | 43.94 | 1,300.53 | 258.12 | 1,602.59 | 1,531.39 | 71.20 | 4.6% |
| Pistyll | 253.87 | 8,500 | 33.48 | 1,300.53 | 258.12 | 1,592.13 | 1,525.08 | 67.05 | 4.4% |
| Porthmadog | 2,054.96 | 57,320 | 27.89 | 1,300.53 | 258.12 | 1,586.54 | 1,518.74 | 67.80 | 4.5% |
| Pwllheli | 1,758.31 | 73,000 | 41.52 | 1,300.53 | 258.12 | 1,600.17 | 1,532.20 | 67.97 | 4.4% |
| Talsarnau | 325.14 | 20,000 | 61.51 | 1,300.53 | 258.12 | 1,620.16 | 1,539.04 | 81.12 | 5.3% |
| Trawsfynydd | 506.72 | 18,000 | 35.52 | 1,300.53 | 258.12 | 1,594.17 | 1,522.18 | 71.99 | 4.7% |
| Tudweiliog | 469.37 | 6,000 | 12.78 | 1,300.53 | 258.12 | 1,571.43 | 1,503.65 | 67.78 | 4.5% |
| Tywyn | 1,623.87 | 88,500 | 54.50 | 1,300.53 | 258.12 | 1,613.15 | 1,545.55 | 67.60 | 4.4% |
| Waunfawr | 573.82 | 12,000 | 20.91 | 1,300.53 | 258.12 | 1,579.56 | 1,511.76 | 67.80 | 4.5% |

| **Awdurdod** | **2018/19** | **2017/18** | | **Authority** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Gwynedd** | **1,300.53** | **1,240.96** | **4.8%** | **Gwynedd Council** |
| **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** | **258.12** | **249.21** | **3.58%** | **North Wales Police & Crime Commissioner** |
| **Cynghorau Cymuned (Cyfartaledd)** | **42.38** | **39.72** | **6.7%** | **Community Councils (Average)** |
| **Cyfanswm** | **1,601.03** | **1,529.89** | **4.7%** | **Total** |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Cyngor Llawn |
| DYDDIAD | 3ydd Mai 2018 |
| PWNC | Adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau |
| PWRPAS | Cyflwyno adroddiad Y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn amlinellu’r gefnogaeth sydd wedi ei ddatblygu ac wrthi’n cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau. |
| AWDUR | Geraint Owen,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

1. Cyflwynir isod adroddiad blynyddol ar gyfer 2017/18 sy’n amlinellu'r gefnogaeth i Aelodau sydd wedi ei gynnig hyd yma dros gyfnod y Cyngor hwn ynghyd a’r elfennau sy’n parhau i gael eu datblygu.

2. Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:
   - Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
   - Adolygu’r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
   - Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i’w chyflwyno i’r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.

3. Dymunaf ddiolch i’r holl Aelodau, yn arbennig i’r Cadeirydd ac aelodau’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, am eu cefnogaeth gyda’r gwaith hwn dros y misoedd diwethaf.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

# - Cefnogaeth i Aelodau Etholedig Gwynedd

(Mai 2017 – Ebrill 2018)

RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD • PUTTING THE PEOPLE OF GWYNEDD AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO

# RHAGAIR


Bu’n flwyddyn brysur o ganlyniad i etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai 2017, ac mae’r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid, addasu a dysgu i Aelodau a swyddogion. Mae’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi dangos uchelgais i barhau i ddatblygu’r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau i weithredu yn eu rôl. Mae gennym gyfnod cyffrous ac anodd o’n blaenau wrth geisio datblygu’r gefnogaeth sydd ei hangen o fewn heriau ariannol parhaus.

Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:

- Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
- Adolygu’r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
- Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i’w chyflwyno i’r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.

Mae adolygu’r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau etholedig er mwyn cyflawni y rôl yn rhan greiddiol o fy ngwaith i a gwaith y Pwyllgor ac rwy’n diolch yn fawr i bawb am eu mewnbwn hyd yma ac i’r dyfodol.





**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,**
**Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**


## CEFNDIR

Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2017 croesawyd 75 Aelod i'r Cyngor newydd, gyda 24 o'r Aelodau yn ymuno o'r newydd a 51 o'r Aelodau yn dychwelyd. Mae'r gwaith o adolygu a datblygu'r gefnogaeth sydd ar gael i chi fel Aelodau, er mwyn gweithredu yn llwyddiannus yn eich rôl, yn un barhaus.

Mae'r gwaith a wneir, a'r ddarpariaeth i gefnogi aelodau yn eu rolau, wedi ei asesu yn annibynnol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol eleni. Rwy'n falch o adrodd fod Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i ennill "Breinlen Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr", sy'n cael ei adnabod ar lafar fel Siarter Aelodau.


# Pa gefnogaeth sy'n cael ei gynnig i Aelodau?

## ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017



- Gwnaethpwyd cryn waith yn paratoi tuag at etholiadau Llywodraeth Leol a gynhaliwyd ym mis Mai 2017. Bu i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd roi mewnbwn i'r trefniadau paratoi, gan gynnwys sesiynau paratoi ar gyfer darpar ymgeiswyr, datblygu'r safle we i rannu gwybodaeth gyda darpar Aelodau, ynghyd a chreu fideo byr i geisio esbonio rôl Cynghorydd yn syml.
- Ar ddydd Iau, Mai 4ydd, llwyddwyd i gyhoeddi canlyniadau'r etholiad o'r ddwy ganolfan gyfri yn gyflym iawn, fel bo aelodau'r cyhoedd yn gallu dilyn y datblygiadau fel ag yr roeddent yn digwydd.
- Eleni hefyd, cynhaliwyd dyddiau croesawu ar ffurf ychydig yn wahanol i'r gorffennol, a hynny yn seiliedig ar wrando ar adborth Cynghorwyr oedd yn newydd yn 2012. Mae ceisio sicrhau y cydbwysedd rhwng cyflwyno digon o wybodaeth i alluogi Aelodau i fwrw ymlaen gyda'r gwaith, yn erbyn boddi Aelodau gyda gormod o wybodaeth yn un anodd iawn i'w daro. Bu'r adborth o'r sesiynau yn hynod bositif.
- Fodd bynnag, mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda Cynghorwyr a staff i adnabod yr elfennau da, ac hefyd i adnabod materion ple gellid eu gwella ar gyfer cyfnod yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022!
- Diolch i bawb am eu gwaith caled yn y cyfnod yma.

## TREFNIADAU LLYWODRAETHU



- Sefydlwyd Cabinet newydd yng Nghyngor Gwynedd dan arweiniad yr Arweinydd newydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn. Mae'r Arweinydd wedi bod yn gefnogol iawn i ddatblygu rhaglen hyfforddiant er mwyn datblygu sgiliau yr Aelodau Cabinet ymhellach ac i'w galluogi i weithredu yn effeithiol yn eu rôl.

- Adolygwyd y trefniadau craffu yn 2016/17, gyda'r Cyngor yn penderfynu ar y trefniadau newydd yn ei gyfarfod ar 3ydd o Fawrth 2017, i fod yn weithredol o fis Mai 2017 ymlaen. Mae'r trefniadau newydd wedi eu sefydlu, ond fel gydag unrhyw drefn newydd, mae angen addasu rhywfaint wrth fynd ymlaen.

- Mae rôl y Fforwm Craffu yn blaenoriaethu'r materion cywir i'w craffu yn allweddol, ynghyd a'r berthynas rhwng yr Aelodau Cabinet a'r Cadeiryddion/Is-gadeiryddion Craffu. Gwelwyd datblygiad o ran mwy o flaen-graffu, ac mae lle i adeiladu ar hyn i'r dyfodol.

- Hoffwn gymryd y cyfle hwn i atgoffa'r holl Aelodau y gallant godi mater i gael ei ystyried fel pwnc i'w graffu trwy gysylltu gyda Cadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol neu un o'r swyddogion cefnogi craffu. Bydd yr eitem wedyn yn cael ei gynnwys ar log gwyntyllu, fel bo modd penderfynu ar y ffordd ymlaen – boed yn eitem i'w graffu yn ffurfiol mewn pwyllgor, yn ymchwiliad, ynteu ystyried a oes ateb gwahanol ar gyfer rhoi sylw i'w mater.

- Wrth edrych ymlaen, rydym yn awyddus i roi sylw i'r neges sydd wedi ei derbyn ynghylch yr angen i gael sesiynau anffurfiol i alluogi'r holl Aelodau i gwrdd a chael gwybodaeth am bwnc penodol. Cafwyd enghraifft yn ddiweddar trwy'r sesiwn anffurfiol lle roedd cyfle i ddysgu mwy am y datblygaidau TWF Economaidd Gogledd Cymru.

## DARPARIAETH ELECTRONEG



- Ers 2012 mae'r Cyngor wedi annog cyfathrebu yn electroneg gyda Chynghorwyr er mwyn sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei dderbyn yn gyflym ac hefyd er mwyn lleihau ôl-troed carbon y Cyngor trwy leihau'r defnydd o bapur.

- Bellach mae gan y mwyafrif llethol o Aelodau gyfarpar electroneg er mwyn eu galluogi i dderbyn gwybodaeth ac i gynnal eu gwaith fel Cynghorydd. Mae'r peiriannau newydd yn gwneud llawer mwy na'r ipads blaenorol, oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer darllen dogfennaeth pwyllgorau, derbyn ebyst a rheoli'r calendr yn unig. Mae'r peiriannau newydd yn galluogi Cynghorwyr i wneud eu gwaith yn eu ward, cadw eu dogfennaeth, yn ogystal a derbyn ebyst a darllen dogfennau pwyllgor.

- Fodd bynnag, mae rhywfaint o drafferthion wedi bod gyda'r ddarpariaeth newydd. O ganlyniad i ymgymryd a gwaith er mwyn ceisio deall y sefyllfa yn well, rwyf wedi adrodd ar y trafferthion i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn Ebrill 2018 gan nodi fod materion yn amrywio o drafferthion gyda'r teclyn neu'r meddalwedd, yr angen am fwy o hyfforddiant neu "tips" ar gyfer gwneud gwell defnydd o'r ddarpariaeth, i rwystredigaeth benodol gyda'r "app" ebost.

- Yn dilyn cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, mae aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiad ar ddatrysiad posib i'r rhwystredigaethau gyda'r "app" ebost. Mae peilot byr wedi ei gynnal ar y datrysiad, gyda sylwadau cychwynnol yn gadarnhaol iawn. Byddwn nawr yn symud ymlaen i ymestyn y datrysiad i holl aelodau'r Cyngor gan bwyll bach.

## CYFATHREBU / GWYBODAETH

- Un o'r prif faterion a godwyd gan yr Aelodau Etholedig cyn Mai 2017 oedd yr angen i allu derbyn gwybodaeth o un ffynhonell yn amserol, ac i fod yn gallu mynd i chwilio am wybodaeth drostynt eu hunain. I'r perwyl hwn y datblygwyd y Porth.

- Mae'r Porth yn cynnig nifer fawr o elfennau amrywiol i gynorthwyo Aelodau wrth eu gwaith.
    - tudalen 'newyddion' yn cynnwys y wybodaeth diweddaraf,
    - deunydd e-ddysgu ynghyd a chopiau o unrhyw sleidiau o sesiynau hyfforddiant er mwyn galluogi dysgu o bell

- hawlio costau teithio
- llyfrgell gwybodaeth
- cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn aml

- Fodd bynnag, mae Is-Grwp o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi adnabod eisoes fod y defnydd o'r Porth yn gyffredinol isel.  Mae hyn oherwydd amrywiol resymau, gan gynnwys y ddau brif reswm sef, diffyg ymwybyddiaeth o gynnwys y Porth a'r ffaith nad yw mor hawdd ei ddefnyddio a safleoedd gwe eraill.


- Codwyd ymwybyddiaeth yr Aelodau i gynnwys y Porth yn anffurfiol yn ystod sesiynau'r Fforymau/Pwyllgor Ardal ym mis Mawrth.  Cafwyd sylwadau adeiladol ar sut i wella'r ddarpariaeth a gobeithio bydd mwy o ddefnydd o'r adnodd i'r dyfodol.

- Yn ddi-os, bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cadw llygad ar yr elfen yma ac yn ceisio adnabod meysydd i ddabtlygu ymhellach os oes angen.  Mae'r gwaith hwn yn anatod yn parhau i ddatblygu.

- Ar y llaw arall, fel a nodwyd uchod, mae cyfleon hefyd i fod yn cyfathrebu ar faterion penodol mewn ffyrdd gwahanol.  Rydym wrthi'n ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer cynnal sesiynau anffurfiol fydd yn galluogi aelodau i gael sgwrs am bwnc penodol tu allan i ffinaiu pwyllgor.   Bydd y gwaith hwn yn cael ei yrru ymlaen yn 2018/19.


- Mae'r Porth hefyd yn cynnwys gwybodeth cyfredol am swyddogion o fewn ein gwasanaethau a sut y gellir cysylltu â hwy gydag ymholiad.  Derbyniwyd sylwadau ynghylch trafferthion i sicrhau ymateb mewn ambell faes, ac mae gwaith wedi digwydd i geisio cywiro'r sefyllfa.  Mae trefniadau y Cyngor yn glir y dylid ceisio ymateb trwy gysylltu yn anffurfiol yn y lle cyntaf gyda'r swyddog perthnasol, a gellir hefyd cael sgwrs hefo'r Aelod Cabinet perthnasol.  Mae'r protocol cyswllt Aelod/Swyddog yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau eglurder ar y mater.

## LLEOLIADAU CYFARFOD A SICRHAU DEMOCRATIAETH MWY AGORED



- Er mwyn sicrhau democratiaeth mwy agored, mae'n allweddol bwysig fod aelodau o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r hyn fydd yn cael ei drafod yng ngwahanol bwyllgorau'r Cyngor, a hynny o fewn amser rhesymol.  Llwyddir i sicrhau fod 96% o bapurau pwyllgor yn cael eu cyhoeddi yn electroneg 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y Pwyllgor.  Mae'r papurau ar gael yn ddwy-ieithog ar safle we'r Cygnor ac ar Modern.gov.

- Elfen arall o sicrhau mynediad i'r cyhoedd a chynnal democratiaeth mwy agored yw cynllun y Cyngor i we-ddarlledu cyfarfodydd rhai pwyllgorau penodol.  Mae nifer wedi adrodd fod y gallu i wylio'r digwyddiadau dros y cyfrwng yma yn eu cynorthwyo rhag gorfod teithio a bod yn bresennol mewn pwyllgor.




Unwaith eto, gwelir fod Cyngor Gwynedd yn arwain  y gad trwy sicrhau fod darpariaeth dwy-ieithog ar gael ar gyfer y gwe-ddarlledu .

- Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ei bod yn heriol i Aelodau fod yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd.  Mae nifer o sesiynau anffurfiol (megis ymgynghori ar gynnwys Cynllun y Cyngor, sesiwn anffurfiol Seminar Cyllid i'r Aelodau) wedi eu cynnal ar ddyddiadau gwahanol ac mewn lleoliadau gwahanol ar draws y Sir i geisio bod yn fwy hyblyg i Aelodau.

- Yn ogystal, mae nifer o sesiynau hyfforddiant yn cael eu cynnal mewn ffyrdd gwahanol.  Gwnaethpwyd defnydd o'r fforymau/ pwyllgor ardal ar gyfer hyrwyddo hyn, ynghyd a chynnig sesiynau hyfforddiant ar-lein, webinarau a recordio ambell sesiwn hyfforddiant.

- Gan ein bod yn sir ddaearyddol fawr, rydym angen datblygu ein harfer o ddefnyddio mwy ar y ddarpariaeth fideo gynadledda.  Hefyd, mae darpariaeth 'Skype' ar gael ar beiriannau'r Aelodau, ac felly mae'n synhwyrol i ni edrych ymhellach ar sut y gallwn ddefnyddio'r adnodd yma yn fwy effeithiol er mwyn cysylltu gydag Aelodau ar gyfer cyfarfodydd byr.  Bydd y gwaith yma yn bwrw ymlaen yn ystod 2018/19.

## HYFFORDDIANT

- Cynigir rhaglen helaeth o hyfforddiant yn seiliedig ar awgrymiadau gan:
  - Aelodau unigol
  - Pwyllgor Democratiaeth (Is-Grwp)
  - Swyddogion ac Adrannau (meysydd arbenigol)
- Mae cynnwys y rhaglen ar gyfer 2018/19 yn parhau i dyfu ac esblygu
- Mae rhaglen datblygu'r Arweinyddiaeth yn rhedeg ochr yn ochr a hyn. Mae'n cynnwys rhoi cyfleoedd i arweinwyr a darpar-arweinwyr fanteisio ar raglenni Rhanbarthol a Chenedlaethol (drwy CLlLC). Yn ogystal a hyn, trefnir gweithdai wedi eu teilwrio i Gyngor Gwynedd e.e. gweithdy '*5 Behaviours of a Highly Effective Team'* a gomisiynwyd ar gyfer y Cabinet
- Cynigir amrediad o gyfleoedd datblygol sy'n cynnwys hyfforddiant 'traddodiadol', a dulliau dysgu eraill megis gweithdai, cymhelliant (*coaching*), mentora, ymweliadau ac e-ddysgu.
  - Mae teitlau datblygol mewn meysydd arbenigol e.e. *Cynllunio,* a hefyd teitlau datblygu personol e.e. *Gwneud Cyflwyniadau.*
  - Cynhelir sesiynau i'r Cyngor cyfan ac mae'r nifer o ddigwyddiadau yn cynnwys hyfforddiant i niferoedd llai yn ogystal a sesiynau unigol e.e. cymhelliant. Mae hyn yn rhoi mwy o opsiynau i Aelodau fedru mynychu, tra bo niferoedd llai mewn sesiynau hefyd yn rhoi cyfle i bawb gyfrannu a dysgu'n fwy effeithiol.
  - Mae sesiynau dysgu trwy ddulliau technegol yn cael eu datblygu, fydd ar gael o unrhyw le gyda chysylltiad gwe ar amseroedd sy'n gyfleus i unigolion. Mae hyn yn cynnwys cyfres o fodiwlau e-ddysgu a Webinarau.
  - Cynigir cyfweliadau datblygol (un i un) gyda Swyddogion, i roi cyfle i Aelodau adlewyrchu ar eu rôl, ac ystyried unrhyw feysydd yr hoffent eu datblygu, a llunio *Rhaglen Ddatblygu Bersonol*.
- Er mwyn asesu effaith y dysgu, gofynnir i Aelodau ymateb i'r cwestiwn: "*Ydi'r ddarpariaeth dysgu a datblygu yn eich helpu chi fel Aelod i gyflawni eich rôl yn effeithiol, er mwyn i chi allu rhoi gwasanaeth gwell i bobl Gwynedd?"* a "*Sut fedrwn wella'r ddarpariaeth*?"
  - Sgôr cyfartalog ar gyfer 2016-17: 9.8/10
- Cofnodir pob hyfforddiant a fynychwyd gan Aelodau, ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar gyfer creu Adroddiadau Blynyddol.

- Mae'r tîm *Dysgu a Datblygu* yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i greu adnodd ble y gall Aelodau (mewn amser) allu gweld eu rhaglen ddatblygu a'u cofnod hyfforddiant personol.

- Er mwyn adnabod y rhaglen hyfforddiant i'r dyfodol, gwahoddir unrhyw Aelod i gael sgwrs gyda swyddog cymwys i adnabod rhaglen hyfforddiant personol ar eu cyfer. Bu i nifer o'r Aelodau newydd fanteisio ar y cynnig o sgwrs, a bu i feysydd datblygiad cyffredin gael eu hadnabod a'u bwydo i mewn i'r rhaglen hyfforddiant sydd ar gael i'r holl Aelodau. Os oes unrhyw Aelod yn dymuno sgwrs am eich rhaglen hyfforddiant, yna cysylltwch ar bob cyfrif â mi neu Vera Jones, fel Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd.

## DATBLYGIADAU ERAILL

- Cyhoeddi cyflogau a chostau Aelodau yn unol â gofynion, a llwyddo i ddylanwadu ar y Pwyllgor Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i addasu eu canllawiau.

- Datblygu trefniadau symlach i alluogi Aelodau sy'n dymuno cynhyrchu adroddiad blynyddol i wneud hynny, gan wneud darpariaeth i'w cyhoeddi ar y safle we fel bo modd i bobl Gwynedd weld beth mae eu Aelod lleol wedi bod yn ei wneud.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **3 MAI, 2018** |
| **PWNC** | **CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Phennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** |

**CEFNDIR**

1. Mae adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol bellach wedi ei chyhoeddi (Chwefror 2018). Bydd adroddiad y Panel yn cael ei roi ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

1.1 Yn dilyn etholiadau 2017, bu i'r Panel ymweld â phob Awdurdod i drafod gwahanol agweddau o gydnabyddiaeth i Aelodau. Mae argymhellion y Panel yn seiliedig ar y trafodaethau hynny a bellach wedi eu cyhoeddi. Gellir gweld copi o'r adroddiad terfynol drwy ddilyn y ddolen isod:

Adroddiad Blynyddol Panel Cydnabyddiaeth Ariannol 2018

1.2 Prif bwyntiau o'r adroddiad:

- Cynnydd o £200 yn y cyflog sylfaenol i'r holl Aelodau etholedig (codi o £13,400 i £13,600 – cyfateb i 1.49%) o Ebrill 2018
- Dim newid yng nghyflogau'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd
- Diddymu'r trefniant dwy haen/lefel o gydnabyddiaeth ar gyfer Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau.
  - Gosod Aelodau Cabinet ar UN lefel cyflog (£29,300)
  - Gosod Cadeiryddion Pwyllgorau ar UN lefel cyflog (£22,300)
  (Bydd y cyflog sylfaenol yn gynwysedig yn y cyflog).
- Cais gan y Panel i annog aelodau i hawlio ad-daliadau costau gofal fel nad yw'r Aelodau dan sylw'n profi anfantais ariannol.

**Y MATER SYDD GERBRON**

2.1 Mae dyfarniadau'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol yn rhwymo Cynghorau i wneud y taliadau a bennir ganddynt. Yr unig ffordd i beidio â gwneud y taliadau hynny yw i Aelod unigol ddatgan nad yw am dderbyn y cyfan neu gyfran o'r taliadau trwy gysylltu yn uniongyrchol a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

2.2 **Cadeiryddion Pwyllgorau**

Mae cyfrifoldeb ar y Cyngor i ystyried a oes gwahaniaeth yng nghyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau. Yn unol ag adroddiad y Panel, gosodir cyfyngiad ar y nifer o uwch-gyflogau y mae modd eu talu. Y cyfyngiad ar gyfer Gwynedd yw **18** ac ar sail penderfyniadau blaenorol y Cyngor, fe'i telir i'r canlynol:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf
- Cadeiryddion Pwyllgorau
  - Pwyllgor Craffu ( x3 )
  - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
  - Pwyllgor Cynllunio
  - Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)
  - Pwyllgor Pensiynau

2.3 Bu i Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn ei gyfarfod ar 12 Ebrill 2018, ystyried cyfrifoldebau Cadeiryddion y Pwyllgorau uchod a chyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau eraill sydd ddim yn derbyn cydnabyddiaeth arbennig megis Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, Y Pwyllgor Iaith a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

2.4 Yn seiliedig ar arolwg i geisio gwybodaeth am lwyth gwaith Cadeiryddion Pwyllgorau, argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd oedd y dylid parhau i dalu uwch gyflogau i'r 18 rộl a restrir ym mharagraff 2.2 uchod.

**Cyflogau Dinesig (Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Cyngor)**

2.5 Yng nghyd-destun Cyflogau Dinesig, i Gadeiryddion ac Is gadeiryddion y Cyngor, amlygodd y Panel bod llawer o Gynghorau yn gosod cyflogau dinesig ar lefelau grwpiau poblogaeth (A, B ac C - Gwynedd yn Grŵp B). Ystyriwyd nad oedd hyn o reidrwydd yn adlewyrchu cyfrifoldebau penodol oedd yn gysylltiedig â'r rolau. O ganlyniad, mae'r Panel wedi pennu tair lefel o gyflog dinesig (gweler y tabl isod) y gellid eu talu.

2.6 Rhaid i bob Awdurdod benderfynu pa lefel (os o gwbl) a fydd yn cael ei dalu ar gyfer y rolau hyn yn unol â ffactorau lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn bosib talu i Gadeirydd ac Is-gadeirydd yn yr un Awdurdod ar wahanol lefelau.

2.7 Yng Ngwynedd, yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn, y pennaeth dinesig (Cadeirydd y Cyngor) yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr Awdurdod, sydd yn cynrychioli'r Cyngor ar bob math o achlysuron, yn cynnwys digwyddiadau gyda sefydliadau a chyrff allanol.

| Lefel | Cadeirydd y Cyngor | Is Gadeirydd y Cyngor |
|---|---|---|
| 1 | £24,300 | £18,300 |
| 2 | £21,800 | £16,300 |
| 3 | £19,300 | £14,300 |

** Bydd y cyflog sylfaenol (£13,600) yn gynwysedig yn y cyflog dinesig.*

2.8 Bu i Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y mater yn ei gyfarfod ar 12 Ebrill 2018. Yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth am y gofynion ar y rôl, roedd aelodau'r pwyllgor o'r farn fod y gofynion ar y rôl yn uwch na'r gofynion ar Gadeiryddion Pwyllgorau eraill. Argymhelliad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd oedd

- y dylid pennu'r cyflog dinesig ar gyfer Cadeirydd y Cyngor ar Lefel 1 (£24,300)
- y dylid pennu'r cyflog dinesig ar gyfer is-gadeirydd y Cyngor ar Lefel 2 (16,300)

**ARGYMHELLIAD**

3. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi trafod y materion yn eu cyfarfod ym mis Ebrill, ac yn argymell:

- Parhau i dalu uwch gyflogau i'r 18 rộl a restrir ym mharagraff 2.2 uchod.
- y dylid pennu'r cyflog dinesig ar gyfer Cadeirydd y Cyngor ar Lefel 1 (£24,300)
- y dylid pennu'r cyflog dinesig ar gyfer is-gadeirydd y Cyngor ar Lefel 2 (16,300)

**CYFRIFOLDEBAU CADEIRYDDION PWYLLGORAU 2017/2018**

| **PWYLLGOR** | **RHAGLENNU** | **GWIR** | **CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL** |
|---|---|---|---|
| PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI | 5 | 5 | FFORWM CRAFFU X 4<br>CYFARFODYDD GYDA PENNAETHIAID YR ADRAN x 3<br>SESIWN TWF X 1<br>CYFARFODYDD MONITRO PERFFORMIAD (dewisol) |
| PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU | 5 | 5 | FFORWM CRAFFU X 4<br>YMCHWILIAD CRAFFU (dewisol) |
| PWYLLGOR CRAFFU GOFAL | 5 | 4 | FFORWM CRAFFU X 4<br>CYFARFODYDD GYDA PENNAETHIAID YR ADRAN x 3 |
| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | 7 | 7 | FFORWM CRAFFU X 4<br>TIM RHEOLI CYLLID X 3<br>CYFLWYNIADAU + PANEL CYFWELD X 2<br>YMCHWILIAD CRAFFU (dewisol) |
| PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG | 4 | 4 | IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU x 2 |
| PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL | 4 | 4 | IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU x 6<br>YMGYNGHORI AR UNRHYW GAIS TACSI TU ALLAN I BOLISI – CYFARTALEDD 1-2 GAIS YR WYTHNOS |
| PWYLLGOR CYNLLUNIO | 14 | 14 | YMWELIADAU SAFLE CEISIADAU CYNLLUNIO<br>HYFFORDDIANT X 3 |
| PWYLLGOR PENSIYNAU | 5 | 5 | BWRDD PENSIWN (Atebol i'w graffu) X 5 PANEL BUDDSODDI x 5<br>CYD-BWYLLGOR PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU x 4<br>CADEIRIO CYFARFOD BLYNYDDOL O GYFLOGWYR Y GRONFA BENSIWN A CHYNRYCHIOLI'R CYNGOR MEWN CYFARFODYDD CENEDLAETHOL<br>HYFFORDDIANT / CYNHADLEDDAU x 3 |
| PWYLLGOR APELAU CYFLOGAETH | 10 | 4 | HYFFORDDIANT X 1 |
| PWYLLGOR GWASANETHAU DEMOCRATAIDD | 4 | 3 | MYNYCHU CYFARFODYDD LLANDRINDOD x 2<br>IS GRWP PORTH A SURFACE (dewisol) |
| PWYLLGOR SAFONAU | 4 | 3 | MYNYCHU FFORWM SAFONAU GOGLEDD CYMRU X 1<br>CYNHADLEDD PWYLLGOR SAFONAU CYMRU X 1 |
| PWYLLGOR IAITH | 4 | 4 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CYFLOG DINESIG (CADEIRYDD Y CYNGOR) | 6 | 7 | Yn ystod 2017-2018, mynychodd Cadeirydd y Cyngor dros ddeugain o achlysuron er mwyn meithrin hunaniaeth a balchder cymunedol, yn ogystal â hyrwyddo buddiannau ac enw da'r Cyngor.<br>Roedd deunaw o'r achlysuron hynny yn rhai y bu'n eu cynnal ei hunan yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Cyngor.<br>Mynychu achlysur a drefnwyd gan adran o'r Cyngor efo'r Arweinydd neu'r Aelod Cabinet yn arwain oedd pump achlysur.<br>Gwahoddiadau allanol lle bu'n cynrychioli'r Cyngor fel llysgennad oedd pedwar achlysur ar bymtheg arall. |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR LLAWN** |
| **DYDDIAD** | **3ydd o Fai 2018** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor.** |
| **AWDUR** | **Geraint Owen**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Adroddwyd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 5ed o Hydref, 2017 fod cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 41 |
| Annibynnol | 23 |
| Llais Gwynedd | 6 |
| Llafur Rhyddfrydol | 2 |
| Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd | 3 |
| **Cyfanswm** | **75** |

1.2 Ers hynny, mae'r Cynghorydd Nigel Pickavance wedi gadael y Grwp Annibynnol a bellach yn aelod unigol.

1.3 Bellach, felly, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 41 |
| Annibynnol | 22 |
| Llais Gwynedd | 6 |
| Llafur Rhyddfrydol | 2 |
| Grwp Annibynnol Unedig Gwynedd | 3 |
| Aelod Unigol | 1 |
| **Cyfanswm** | **75** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau

cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## 3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

3.1 Golyga fod yr Aelod Unigol yn ennill sedd ar Pwyllgor Craffu Gofal ac ar y Pwyllgor Trwyddedu ar draul y Grwp Annibynnol. (Gweler Atodiad A)

3.2 Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadwyd y dyraniad seddau yn unol â'r cydbwysedd gwleidyddol fel a nodir yn Atodiad A.

## 4. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

4.1 Er mwyn ymateb i ofynion Mesur Llywodraeth Leol (2011) o ran dyrannu'r cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau, rhennir y pwyllgorau i flociau ar wahân.

4.2 Yn unol â gofynion adrannau 66-75 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei adlewyrchu yn y cadeiryddiaethau hynny, a bod y grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y weithrediaeth yn cael cyfran deg o'r cadeiryddiaethau.

4.3 Yr unig bwyllgorau y mae eu cadeiriau i'w dyrannu ar sail cydbwysedd gwleidyddol yw'r Pwyllgorau Craffu. Dyranwyd y cadeiriau fel a ganlyn yn 2017/18:

| | |
|---|---|
| Addysg ac Economi | Annibynnol |
| Cymunedau | Plaid Cymru |
| Gofal | Annibynnol |

4.4 Yn unol ag adran 83 o'r Mesur, ni chaiff cadeiryddiaeth y pwyllgor Archwilio fod yn aelod o grŵp gwleidyddol sy'n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.

4.5 Argymhellir fod y dyraniad i gadeiryddiaethau, i gyd-fynd â'r rheolau statudol, yn aros yn gyson gyda'r dyraniad a fu yn 2017/18.

4.6 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol na chyfansoddiadol yn rheoli'r penodiadau i'r is-gadeiryddiaethau nac i gadeiryddiaethau gweddill y pwyllgorau (heblaw na chaiff aelod o'r weithrediaeth gadeirio'r Pwyllgor Trwyddedu).

4.7 Y pwyllgorau eu hunain fydd yn ethol eu cadeirydd yn yr achosion hyn yn amodol ar y rheolau gweithdrefn sy'n cyfyngu tymor Cadeirydd i 2 flynedd.

**5. ARGYMHELLIAD**

5.1 Gofynnir i'r Cyngor:

- fabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad A.

- ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol

- mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | Annibynnol |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | Plaid Cymru |
| Pwyllgor Craffu Gofal | Annibynnol |

**ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 10 | 5 | 2 | 0 | 1 | | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 10 | 5 | 2 | 1 | 0 | | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 10 | ~~6~~ 5 | 1 | 0 | 1 | 1 | 18 |
| Archwilio a Llywodraethu | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | | 18 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 8 | 5 | 1 | 0 | 1 | | 15 |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | | 15 |
| Trwyddedu Canolog | 8 | ~~5~~ 4 | 1 | 1 | 0 | 1 | 15 |
| Iaith | 8 | 5 | 1 | 0 | 1 | | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 5 | 2 | 0 | 0 | | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 2 | 1 | 0 | 0 | | 7 |
| **Nifer y seddau** | **84** | **45** | **13** | **4** | **6** | **2** | **154** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur Rhyddfrydol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 0 | 1 | 0 | | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 3 | 1 | 0 | 1 | | 11 |
| CYSAG | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 1 | 0 | 0 | | 8 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **103** | **55** | **15** | **5** | **7** | **2** | **187** |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **3ydd Mai 2018** |
| **TEITL** | **Diwygio’r Cyfansoddiad** |
| **CYFLWYNYDD** | **Cynghorydd Seimon Glyn – Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Amgylchedd** |
| **PWRPAS** | **Gweithredu argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau o ran addasu Cynllun Diprwy Cynllunio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Mabwysiadu'r addasiadau i’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio Adran 13 Atodiad 3 Rhan 11 Pennaeth Rheoleiddio yn unol â’r hyn a nodir yn Atodiad 1 o’r adroddiad.** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1 Mae’r adroddiad yma yn cynnwys argymhellion ar gyfer diwygio elfen benodol o’r Cyfansoddiad, sef Cynllun Dirprwyo Cynllunio. Mae’r addasiadau penodol i’w gweld yn Atodiad 1

2 Ym mis Mawrth 2017 cwblhawyd ymchwiliad Craffu Cymunedau ynglŷn â’r maes Cynllunio. Un o’r meysydd oedd dan ystyriaeth oedd nifer o geisiadau cynllunio oedd yn dod ger bron y Pwyllgor Cynllunio. Canfyddiad yr ymchwiliad oedd bod y nifer o geisiadau oedd ger bron y Pwyllgor yn uchel ac felly bod angen ystyried addasu’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio. Roedd hyn yn argymhelliad ffurfiol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Ymgynghorwyd yn anffurfiol gydag aelodau o’r Pwyllgor Cynllunio hefyd ym mis Tachwedd ar y darpar addasiadau. Roedd cefnogaeth i’r awgrymiadau mewn egwyddor.

3 Ymgynghorwyd ymhellach gyda’r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar yr 22ain Chwefror 2018 ynglŷn â geiriad y Cynllun dirprwyo newydd, a phenderfynwyd derbyn yr addasiadau**.** Mae’r adroddiad Pwyllgor Craffu i’w weld yn Atodiad 2, ac mae hwn yn nodi’r cefndir yn ei gyfanrwydd. Nodir manteision a buddion addasu’r Cynllun Dirprwyo a ystyriwyd o fewn rhan 7.2 o’r adroddiad Craffu. Y rhain yw’r ceisiadu sydd rhaid dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio.

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s16060/Planning%20Delegation%20Plan.pdf?LLL=1

**Adran 13 Atodiad 3 Rhan 11 Pennaeth Amgylchedd**

4 Mae’r newidiadau arfaethedig i’w gweld yn benodol yn Atodiad 1. Mae nifer o’r newidiadau ynglŷn â sicrhau cysondeb a thacluso materion technegol. Mae’r newidiadau i’w crynhoi fel a ganlyn:

4.1 Mae rhif 2 yn ymdrin â cheisiadau cynllunio a gwrthwynebiadau gan Aelodau Etholedig neu staff Gwasanaeth Cynllunio. Mae hyn yn creu sicrwydd er mwyn ymdrin â materion yn dryloyw, a bod unrhyw geisiadau o’r math yn cael eu delio yn gyhoeddus gan y Pwyllgor. Mae rhif 3 yn ymdrin gyda sefyllfa gyffelyb o ran perthnasau agos.

4.2 Rhif 5 - wedi ei ddileu gan fod rhannau eraill o’r cynllun yn gallu ymdrin â cheisiadau o’r math yma.

4.3 Rhif 6 - Ar hyn o bryd mae trothwy o 3 gwrthwynebiad i gais gynllunio yn groes i argymhelliad swyddog yn golygu y bydd mater yn mynd ger bron Pwyllgor Cynllunio. Golygai fod derbyn unrhyw dri eitem o ohebiaeth yn rhoi’r eitem ar raglen y Pwyllgor heb unrhyw gyd-destyn. Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Craffu yn yr ymchwiliad yn 2017, roedd y Pwyllgor Craffu yn gefnogol i beidio cael trothwy ar gyfer nifer o ohebiaeth. Mae disgresiwn yr Aelod lleol i alw cais ger bron y Pwyllgor yn parhau (Rhif 1) a hefyd mae gan y Pennaeth y disgresiwn i alw ceisiadau i’r Pwyllgor fel bod yn ystyried yn briodol (Rhif 7).

4.4 Rhif 9 - Ni ystyrir fod angen gwahaniaethu rhwng datblygiad diwydiannol masnachol neu adwerthu ei natur sydd dros 500 meter sgwar a datblygiadau o adeilad neu adeiladau sydd yn fwy na 1000 meter sgwar neu fwy. Ystyrir fod yr addasiad yn cyfarch y rhain mewn un pwynt perthnasol gan osod trothwy o 1000 meter sgwar bu'r rhain yn adeiladau masnachol, adwerthu neu unrhyw ddatblygiad o fath arall. Mae hyn yn adlewyrchu y diffiniad statudol o Ddatblygiad Mawr.

4.5 Rhif 10 - mae hwn wedi ei gynnwys er mwyn cyfarch datblygiad tir sydd yn fwy na 0.5 hectar. Ystyrir fod y pwynt yma yn cyfarch nifer o geisiadau carafanau o sylwedd (rhif 11), ac unrhyw ddatblygiad arall all fod o sylwedd.

4.6 Mae rhif 11 a 12 wedi eu dileu ar y sail fod un ai un o’r penawdau eraill bellach yn eu cyfarch (Rhif 10), neu bod disgresiwn yr Aelod lleol galluogi galw’r mater i Bwyllgor os yw’n ystyried ei fod yn fater sydd o bwys cynllunio lleol.

4.7 Dylid nodi fod rhif 8 (datblygiadau o 5 neu fwy o dai) wedi ei gadw o fewn y cynllun.

**ARGYMHELLIAD:**

**Mabwysiadu'r addasiadau i’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio Adran 13 Atodiad 3 Rhan 11 Pennaeth Rheoleiddio yn unol â’r hyn a nodir yn Atodiad 1 o’r adroddiad.**

**Atodiad 1**

**Cynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd**

1. Ceisiadau cynllunio pan fydd y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward neu unrhyw ddau aelod arall yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Rheolwyr Cynllunio o fewn yr amserlen a sefydlwyd fel bod y mater yn cael ei gyfeirio i'w bennu gan y Pwyllgor Cynllunio. Dylai'r cais ysgrifenedig gynnwys rhesymau cynllunio clir ar gyfer gofyn i gais gael ei gyfeirio at Bwyllgor. Dylid anfon llythyr hysbysu i bob aelod lleol. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr hysbysu. Gall aelod lleol drafod cais gyda swyddogion cyn cyfeirio cais i Bwyllgor.

2. Ceisiadau cynllunio a/neu gwrthwynebiadau/cefnogaeth i gais cynllunio a gyflwynir gan Aelodau Etholedig neu staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio.

3. Ceisiadau cynllunio a/neu gwrthwynebiadau/cefnogaeth i gais cynllunio a gyflwynir gan berthynas agos i Aelod Etholedig neu staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio. Diffinir "perthynas agos" yn y cyd-destyn yma fel mam neu dad, gwr neu wraig, partner, plentyn,brawd neu chwaer, nain neu daid, wyr neu wyres.

4. Ceisiadau cynllunio y mae Asesiad Effaith Amgylcheddol ynghlwm wrthynt.

~~5. Cais am gydsyniad i godi llinellau trydan sydd a chynhwysedd o 32KV neu fwy.~~

~~6. Ceisiadau pan fydd tri neu fwy o sylwadau wedi eu derbyn o fewn y cyfnod ymgynghori sydd yn groes i argymhelliad y swyddogion.~~

7. Ceisiadau cynllunio y mae'r Pennaeth Amgylchedd yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor.

8. Ceisiadau cynllunio am dai lle mae y nifer o dai sydd yn cael eu darparu yn 5 neu yn fwy

9. Ceisiadau cynllunio am ~~ddatblygiad diwydiannol masnachol neu adwerthu sydd dros 500metr sgwar~~ ddarpariaeth adeilad neu adeiladau ble mae'r gofod llawr sydd i'w greu gan y datblygiad yn 1000 metr sgwar neu fwy; neu

10. Ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau ar safle sydd yn 0.5 hectar neu fwy o ran maint

~~11. Ceisiadau am fwy na 5 carafan.~~

~~12. Ceisiadau cynllunio llawn am fastiau telathrebu a chyfarpar.~~

Diffinir 'ceisiadau cynllunio' fel: cais llawn, cais deiliaid ty, cais amlinellol, cais materion a gadwyd yn ol, cais adeilad rhestredig, cais Ardal Cadwraeth, cais i arddangos hysbysebion, cais mwynau a gwastraff, cais i ddiddymu neu amrywio amod(au), cais i ddiddymu neu amrywio Rhwymedigaeth Cynllunio, cais diwygiad ansylweddol.

**Atodiad 2**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | |
| **TEITL** | Gweithredu’r argymhelliad i addasu’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio yn sgil yr Ymchwiliad Craffu yn y maes Cynllunio. |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Cyflwyno’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio (Drafft) newydd i gynnwys yr addasiadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Craffu cyn ei gyflwyno i’r Cyngor Llawn. |

1. **Cefndir:**

1.1 Mae’n fwriad gofyn i’r Cyngor Llawn gefnogi argymhelliad y Pwyllgor Craffu i ddiwygio’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio. Bu i Ymchwiliad Craffu gael ei gynnal ar y maes cynllunio yn ystod 2016-17. Un o’r meysydd oedd yn rhan o’r ymchwiliad hwn oedd y Cynllun Dirprwyo Cynllunio, sef y Cynllun sydd yn nodi pa geisiadau sydd yn cael eu dirprwyo i swyddogion perthnasol i’w penderfynu a pha geisiadau sydd angen eu hadrodd i’r Pwyllgor Cynllunio i’w penderfynu.

1.2 Yn mis Mawrth 2017, ac yn sgil gwaith a chanfyddiadau’r Ymchwiliad Craffu, cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu i’r Aelod Cabinet y dylid addasu’r trothwyon yn y Cynllun Dirprwyo. Bydd addasu’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar argymhelliad y Swyddog Monitro gan ei fod yn fater cyfansoddiadol. Fel rhan o’r broses yma ceisir cefnogaeth y Pwyllgor Craffu i ddiwygio’r Cynllun Dirprwyo Cynllunio yn unol â’u hargymhellion gwreiddiol er mwyn sicrhau'r buddion a drafodwyd eisoes ac a amlinellir isod. Teimlir ei bod yn bwysig fod y Pwyllgor Craffu’n gweld allbwn gwaith yr ymchwiliad, cyn ei adrodd i’r Cyngor Llawn, gyda’r newidiadadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor eisoes, wedi ei hymgorffori mewn Cynllun Dirprwyo diwygiedig.

2. **Gwaith y Pwyllgor Craffu**

2.1 Un o’r meysydd gwaith roedd y Pwyllgor Craffu yn dymuno edrych arno oedd y rhan o’r Cynllun Dirprwyo sydd yn berthnasol i geisiadau cynllunio. Mae’n debyg fod hyn yn deillio o bryderon sydd yn cael eu codi yn gyson gan aelodau, Cadeirydd a Chyn-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am hyd yr rhaglenni, hyd y Pwyllgorau, y nifer a mathau o eitemau sydd yn dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio a pam fod rhai eitemau angen dod gerbron y Pwyllgor o gwbl. Mae pryder cyffredinol wedi ei fynegi nad yw’r drefn bresennol yn gwneud y defnydd gorau o amser y Pwyllgor a sicrhau eu bod yn delio gydag a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt heb orfod delio gyda materion sydd gyda dim mwy na diddordeb lleol iddynt.

2.2 Yn benodol i’r pwnc yma bu i’r ymchwiliad craffu ystyried:

1. Beth yw blaenoriaethu’r Pwyllgor Cynllunio o safbwynt y ceisiadau sydd yn dod gerbron a’r amser a’r arbenigedd sydd ar gael?

2. Ydy'r trefniadau presennol yn galluogi'r Pwyllgor Cynllunio i ddelio gydag a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt heb orfod delio gyda materion sydd gyda dim mwy na diddordeb lleol iddynt?

3. Os oes angen newid cynnwys/trothwyon y Cynllun Dirprwyo, sut gellir gwneud hynny?

4. Beth fyddai'r budd i'r Pwyllgor Cynllunio…ac fyddai budd ehangach na budd i waith y Pwyllgor Cynllunio ei hun?

2.3 Er mwyn gwneud hyn fe ddarparwyd gwybodaeth i'r Ymchwiliad Craffu ei ystyried oedd yn ymwneud gyda:

3. **Trefniadau presennol y Pwyllgor Cynllunio**

3.1 Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cwrdd bob 3 wythnos ac ar gyfartaledd mae oddeutu 10 cais ar bob rhaglen ac yn ddiweddar roedd 16 cais ar yr agenda oedd yn golygu dechrau'r Pwyllgor yn y bore yn hytrach nac am 1yp. O ystyried y gwaith sydd yn gysylltiedig gyda pharatoi eitemau Pwyllgor, yn ogystal â'r pwysau ar Aelodau a nifer uchel o swyddogion i baratoi o flaen llaw (a hyd cyfarfodydd) mae'n amlwg nad yw cael mwy na 10 eitem ar bob rhaglen yn ddelfrydol, yn enwedig os oes ceisiadau mawr ac/neu gynhennus. Mae'r meddylfryd hyn wedi ei gefnogi gan Gadeirydd a Chyn-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Dirprwyo Swyddog Monitro ac yn gyffredinol fe gredir mai'r nifer delfrydol ac eitemau ar yr agenda yw 8.

3.2 Oherwydd gofynion y Cynllun Dirprwyo presennol mae pob agenda draft yn dechrau gyda nifer uchel iawn o geisiadau arno (rhwng 20-25) gyda'r angen wedyn i flaenoriaethu pa geisiadau fydd ar yr agenda terfynol. Rhaid blaenoriaethu ar sail nifer o faterion a risgiau megis: gallu penderfynu o fewn cyfnod statudol er mwyn cwrdd targedau cenedlaethol; penderfynu o fewn cyfnod statudol oherwydd gall yr ymgeisydd ofyn am ad-dalu'r ffi cynllunio os na wneir hyn; risg o apêl am ddiffyg penderfyniad o fewn yr amserlen; oblygiadau economaidd/grantiau (er nad yw'n fater cynllunio, mae'n bwysig i'r datblygwr ac i gyflawni datblygiad); pwysau gwaith ar yr holl swyddogion sydd yn ymwneud gyda'r broses ac Aelodau'r Pwyllgor. O bryd i'w gilydd mae angen wedi codi am Bwyllgor ychwanegol er mwyn dal fyny neu fel a welwyd yn Rhagfyr 2017 cynhaliwyd Pwyllgor drwy'r dydd.

3.3 Yn ogystal mae'r gwaith sydd yn gysylltiedig gyda pharatoi adroddiadau Pwyllgor wedi cynyddu yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf a hynny oherwydd yr angen am adroddiadau manylach er mwyn lleihau risg i'r Cyngor, cwrdd a'r gofynion polisi lleol a chenedlaethol ac i sicrhau fod yr holl wybodaeth berthnasol gan yr Aelodau wrth iddynt wneud eu penderfyniad. Cydnabyddir fod hefyd angen adroddiad mewn perthynas a materion dirprwyedig ond yn amlwg nid yw'r cyfyngiadau amserlen yn bodoli sy'n golygu fod penderfyniad amserol yn llawer mwy tebygol.

4. **Y Cynllun Dirprwyo Presennol**

4.1 Ar hyn o bryd, ac o safbwynt materion cynllunio yn unig, fe ddirprwyir yr hawl i benderfynu ar unrhyw fater sydd angen penderfyniad o dan y deddfau perthnasol (a nodir yn y 'Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau') i'r Pennaeth Rheoleiddio (sydd erbyn hyn wedi ei newid i Bennaeth Amgylchedd), ac eithrio'r isod fydd yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Cynllunio (atodir copi llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio presennol fel Atodiad 1):


- *Ceisiadau pan fydd y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward neu unrhyw ddau aelod arall yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Rheolwyr Cynllunio o fewn yr amserlen a sefydlwyd fel bod y mater yn cael ei gyfeirio i'w bennu gan y Pwyllgor Cynllunio. Dylai'r cais ysgrifenedig gynnwys rhesymau cynllunio clir ar gyfer gofyn i gais gael ei gyfeirio at Bwyllgor. Dylid anfon llythyr hysbysu i bob aelod lleol. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr hysbysu. Gall aelod lleol drafod cais gyda swyddogion cyn cyfeirio cais i Bwyllgor.*
- *Ceisiadau a gyflwynir gan Aelodau staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio.*
- *Ceisiadau y mae Asesiad Effaith Amgylcheddol ynghlwm iddynt.*
- *Cais am gydsyniad i godi llinellau trydan sydd â chynhwysedd 32KV neu fwy.*
- *Ceisiadau pan fydd tri neu fwy o sylwadau wedi eu derbyn o fewn cyfnod ymgynghori sydd yn groes i argymhelliad swyddogion.*
- *Ceisiadau y mae'r Pennaeth Rheoleiddio yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor.*
- *Ceisiadau am ddatblygiadau preswyl ar gyfer 5 annedd neu fwy.*
- *Ceisiadau am ddatblygiad diwydiannol, masnachol neu adwerthu sydd dros 500m sgwâr.*
- *Ceisiadau am fwy na 5 carafán.*
- *Ceisiadau cynllunio llawn am fastiau telathrebu a chyfarpar.*

*NODYN: fel mater o ymarfer da, bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn cyfeirio unrhyw gais gan berthynas agos i aelod o staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio i'r Pwyllgor ei benderfynu. I'r pwrpas yma diffinnir perthynas agos fel mam neu dad, gwr neu wriag, partner, plenty neu frawd neu chwaer.*

4.2 Dylid nodi fod cyfrifoldeb ar pob prif swyddog o dan hawliau cyffredinol Cynllun Dirprwyo Swyddogion o fewn y Cyfansoddiad (Adran 13, Atodiad 3) i ystyried cyn penderfynu ar unrhyw gais dirprwyedig os dylid ei gyfeirio at Bwyllgor i'w benderfynu. Fydd y cyfrifoldeb yma yn parhau yn dilyn unrhyw newid penodol i'r cynllun dirprwyo Cynllunio.

4.3 Darparwyd siart i'r Pwyllgor Craffu oedd yn dangos y rhesymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor Cynllunio ac amlygwyd mai'r rheswm mwyaf oedd derbyn 3+ o sylwadau yn groes i argymhelliad swyddog. Gall y gwrthwynebiadau hyn i gyd ddod o'r un cyfeiriad post neu e-bost ac/neu fod yn anhysbys ac o bosibl yn amherthnasol i'r achos neu i gynllunio. Mae hyn hefyd yn golygu fod datblygiadau bach megis estyniadau i dai ac ati'n gorfod cael eu penderfynu gan y Pwyllgor.

4.4 Yn ystod blwyddyn 2015/16 mae'r prif resymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor fel a ganlyn:




**Nodyn:** rhaid cofio nad yw'r trothwyon hyn (na'r rhai presennol) yn gweithredu'n unigol – mae'n bosib fod cais sydd gerbron y Pwyllgor ar yr agenda oherwydd e.e. nifer o dai, gwrthwynebiadau a'i fod wedi ei alw i mewn gan yr Aelod Lleol.

5. **Y sefyllfa yn Genedlaethol a threfniadau sampl o Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Ngogledd Cymru** -

5.1 Yn ystod 2016/17 a 2015/16 daeth 9% o holl geisiadau cynllunio Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd gerbron y Pwyllgor Cynllunio o'i gymharu gyda cyfartaledd Cymru oedd yn 6%. Mae hyn yn gyfystyr gyda oddeutu 100 o geisiadau'r flwyddyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor dros 15 o gyfarfodydd (gyda nifer o'r ceisiadau yma yn cael eu gohirio a'u hail-gyflwyno).

5.2 Edrychwyd ar drefniadau dirprwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn y Gogledd a gwelwyd fod meini prawf sydd yn gyffredin ond ddim yn gwbl gyson rhwng bob ACLl megis:

1. Amgylchiadau ble gall Aelod Lleol alw'r cais gerbron y Pwyllgor
2. Amgylchiadau ble mae gan aelod o staff neu Aelod ddiddordeb personol yn y cais
3. Ceisiadau ble mae Asesiad o Effaith Amgylcheddol ynghlwm
4. Ceisiadau ble mae'r Pennaeth yn ystyried y dylid eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad
5. Fod y cais yn disgyn o fewn y diffiniad statudol o gais 'mawr' (major)

6. Fod nifer benodol (sy'n amrywio o ACLl i ACLl) o wrthwynebiadau ysgrifenedig wedi eu derbyn
7. Fod y cais wedi ei gyflwyno gan y Cyngor neu ar dir y Cyngor

5.3 Nid yw'r mwyafrif o'r ACLl a edrychwyd arnynt yn nodi maint/math o ddatblygiad neu nifer o unedau fel trothwy fel mae ACLL Gwynedd yn ei wneud ond yn hytrach yn defnyddio'r diffiniad statudol o geisiadau 'mawr'. Mae trothwyon Cyngor Gwynedd yn is na hyn ac yn rhagnodol iawn o safbwynt niferoedd sylwadau, nifer o dai a charafanau ac mae'n debygol fod ei gynnwys wedi dyddio ac yn gyffredinol yn adlewyrchu'r amgylchiadau/diddordeb oedd yn bodoli ar adeg ei lunio. Erbyn hyn mae natur y ceisiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r ACLl wedi newid cryn dipyn o safbwynt math, maint a nifer.

5.4 Wrth ystyried hyn amlygwyd fod modd cynnig newidiadau syml i'r trothwyon dirprwyo fyddai unai yn lleihau'r nifer ar bob agenda a'r holl waith cysylltiedig ac/neu yn sicrhau fod y ceisiadau sydd angen blaenoriaeth a sylw'r Pwyllgor ar yr agenda heb orfod oedi yn ddiangen gan leihau risgiau a sicrhau lefelau perfformiad. Byddai hefyd yn fodd i geisio lleihau'r nifer a gyflwynir i'r Pwyllgor er mwyn adlewyrchu y cyfartaledd Cenedlaethol ac hwyluso penderfyniadau cyflymach.

6. **Trafodaeth y Pwyllgor Craffu:**

6.1 Ar sail y canran uchel o geisiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a'r effaith cysylltiedig o wneud hyn (fel a nodir uchod), cefnogwyd yr angen i sicrhau fod y Pwyllgor Cynllunio yn canolbwyntio ar ddelio gyda materion sydd o wir ddiddordeb iddynt yn unig ac y byddai hyn hefyd yn sicrhau'r defnydd gorau o'r amser a'r arbenigedd sydd ar gael gan hefyd osgoi'r risgiau posibl a amlinellir uchod.

6.2 Er mwyn gwneud hyn, cefnogwyd y bwriad i newid y Cynllun Dirprwyo Cynllunio a'i selio ar drothwyon/diffiniad o geisiadau 'mawr' gyda addasiadau lleol o safbwynt nifer tai (5 yn lle 10) ac hefyd datblygiad ar safle o faint penodol (0.5 hectar yn lle 1 hectar). O safbwynt ceisiadau mwynau a gwastraff ni ystyrir fod angen nodi rhain yn unigol gan y bydd y trothwyon eraill a awgrymir yn golygu y bydd y ceisiadau mawr neu sydd o ddiddordeb yn dod gerbron y Pwyllgor beth bynnag.

6.3 Roedd y Pwyllgor Craffu yn gefnogol i beidio cael trothwy ar gyfer nifer o ohebiaeth oedd ei angen yn groes i argymhelliad y swyddog er mwyn cyflwyno cais i Bwyllgor, gan fod hyn wedi ei ddangos i fod yn cyfrannu yn sylweddol tuag at geisiadau oedd mynd gerbron y Pwyllgor, oedd heb fwy na diddordeb lleol iddynt. Cydnabuwyd a chefnogwyd fod hawl yr Aelod Lleol neu dau aelod arall i alw cais i Bwyllgor o dan amgylchiadau penodol yn parhau fel y sefyllfa bresennol ac ystyriwyd fod hyn yn dderbyniol. Yn ogystal, derbyniwyd y byddai'r holl ohebiaeth a dderbynnir ar gais ac sydd yn berthnasol i gynllunio yn parhau i gael sylw teilwng a phriodol fel rhan o'r asesiad dirprwyedig.

7. **Canfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu -**

7.1 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu gwnaethpwyd y canfyddiad fod '*trothwyon Cynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd i weld yn isel o'i gymharu gyda sefydliadau eraill ac fe amlygir hynny drwy nifer y ceisiadau sy'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio.*' Tystiolaethwyd hyn gan berfformiad cymharol Cymru 2015-16 (sydd hefyd yn wir ar gyfer 2016-17). Ar y sail yma

argymhellodd y Pwyllgor Craffu fod trothwyon y Cynllun Dirprwyo Cynllunio fel oedd wedi ei drafod a'i gefnogi gan y Pwyllgor Craffu. Mae drafft o'r Cynllun Dirprwyo arfaethedig cyflawn wedi ei gynnwys fel Atodiad 2 ac mae hwn yn cyfeirio at yr hawliau i alw i mewn, cyfeirio ceisiadau gan staff ac aelodau, ymarfer da ac ati.

7.2 Rhagwelir y byddai buddion amlwg ac eang o weithredu'r newidiadau drwy:

- Llai o geisiadau ar yr rhaglen a pheidio gorfod blaenoriaethu cymaint
- Penderfyniadau mwy amserol yn debygol o:
    - Wella profiad y cwsmer
    - Lleihau'r risgiau i'r Cyngor (apel ac ad-dalu ffioedd)
- Llai o bwysau gwaith ar Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a chyfarfodydd byrrach
- Pwyllgor Cynllunio yn gallu delio a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt
- Llai o bwysau ar yr Uned Gyfieithu, Uned Gefnogol, Swyddogion Cynllunio a'r holl swyddogion eraill sydd yn cefnogi'r broses
- Alluogi'r Gwasanaeth Cynllunio i gynnal a gwella perfformiad
- Ryddhau amser Swyddogion Cynllunio i ganolbwyntio ar geisiadau cynllunio eraill (sef 91% o'r holl geisiadau) er gwella profiad holl gwsmeriaid y Gwasanaeth Cynllunio

8. **Amserlen Berthnasol:**

8.1 Cyflwyno'r newid i'r Cyngor Llawn am eu cefnogaeth ar argymhelliad y Swyddog Monitro yn y cyfarfod blynyddol 3 Mai 2018.

8.2 Gweithredu'r newid yn fuan wedi hynny a chyn Medi 2018 gan fanteisio ar gyfnod yr Haf i godi ymwybyddiaeth a rhoi'r trefniadau priodol yn eu lle.

9. **Casgliadau**

9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu gadarnhau ac chefnogi'r Drafft Llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio arfaethedig yn Atodiad 2, sydd yn cynnwys yr addasiadau sydd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth, cyn bod y cynllun yn cael ei adrodd i'r Cyngor Llawr ar argymhelliad y Swyddog Monitro.

10**.** **Atodiadau:**

Atodiad 1 – Cynllun Dirprwyo Cynllunio presennol

Atodiad 2 – Drafft Llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio arfaethedig